# Atodiadau

# Adroddiad Cabinet 16-07-13 Ynglŷn ag Ad-drefnu Ysgolion yn Nhref Dolgellau

| Trefn | Dogfen |
|---|---|
| 1 | Adroddiad Cyngor Llawn 16-07-11 |
| 2 | Mapiau'r Ardal gyda Data 2012/2013 Yr Ysgolion |
| 3 | Opsiynau Buddsoddiad Posib |
| 4 | Cofnod Cyfarfod Cynrychiolwyr Mis Mai 2013 |
| 5 | Rhestr Dogfennau'r Pecyn Cefndirol |

# ATODIAD 1 - Adroddiad Cyngor Gorffennaf 2011

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 14 Gorffennaf 2011 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch Y Gader |
| **PWRPAS** | Amlinellu cynigion i ad-drefnu ysgolion Y Gader, gosod y rhesymeg a gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i'r bwriad o symud i gyfnod statudol lle'n berthnasol |
| **ARGYMHELLIAD** | Bod y Cyngor yn cadarnhau'r cynigion ac yn argymell cyfnodau o ymgynghori statudol ar y cynigion perthnasol |
| **AWDUR** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

**NODER**:
Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn cyfnod o drafod yn nalgylch Y Gader, Dolgellau. Mae'r cynigion yn adlewyrchu anghenion Cyngor Gwynedd yn unol â Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion y Cyngor. Mae canllawiau clir wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru o ran y broses statudol sydd angen eu dilyn wrth newid statws ysgol. Cadarnheir na fydd y cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion hyn yn cychwyn nes i'r Cyngor gymeradwyo ymgynghoriad statudol. Mae'r ddogfen yma'n cynnwys y canlynol fel a ganlyn:

**MYNEGAI**


| Tudalen | |
|---|---|
| 2 | **Yr Adroddiad** |
| | **Atodiadau** |
| 37 | Atodiad 1 – Rhestr Dogfennau Cefndirol Pellach |
| 38 | Atodiad 2 – Pecyn Ystadegol Dalgylch Y Gader |
| 72 | Atodiad 3 – Opsiynau Modelau ar gyfer Ad-drefnu Dalgylch Y Gader |
| 86 | Atodiad 4.1 – Asesiad Opsiynau - Cyngor Gwynedd (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleon, Bygythiadau) |
| 90 | Atodiad 4.2 – Asesiad Opsiynau - Ychwanegiadau Cynulleidfa PAD 6 (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleon, Bygythiadau) |
| 96 | Atodiad 5.1 - Cofnodion Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 1 (29-04-10) |
| 101 | Atodiad 5.2 – Cofnodion Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 2 (13-05-10) |
| 105 | Atodiad 5.3 – Cofnodion Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 3 (25-05-10) |
| 109 | Atodiad 5.4 – Cofnodion Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 4 (06-07-10) |
| 112 | Atodiad 5.5 – Cofnodion Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 5 (25-05-11) |
| 119 | Atodiad 5.6 – Cofnodion Panel Adolygu Dalgylch Y Gader 6 (13-06-11) |
| 125 | Atodiad 6 - Amserlen Y Gader |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ym Mehefin 2008.

1.2 Cynhaliwyd 15 o gyfarfodydd i drafod ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cyflwyniadau gan:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- ESTYN/Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cynghrair Ysgolion a Chefnogwyr
- Penaethiaid yn cynrychioli ysgolion bach, canolig a mawr yng Ngwynedd
- National Association for Small Schools

1.3 Yn ystod Gwanwyn 2009, cyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*.

1.4 Cytunwyd bod angen adolygu addysg led-led y sir fesul dalgylch. Gosodwyd camau clir ar gyfer cynnal y broses.

1.5 Gosodwyd ynddi restr o amcanion a meini prawf y dylid eu cadw mewn cof wrth gynnal yr adolygiadau:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a niferoedd disgyblion
- Amgylchedd dysgu'r plentyn
- Y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau daearyddol
- Amgylchiadau eithriadol
- Cylchlythyr 21/2009

1.6 Datblygwyd ystod o feini prawf penodol o amgylch y ffactorau uchod. Wrth ystyried sefyllfaoedd dalgylchoedd unigol yn erbyn y meini prawf adnabuwyd Tywyn fel y dalgylch gyntaf i'w hadolygu, dalgylch y Berwyn yn ail a dalgylch Y Gader i ddilyn.

1.7 ***Derbyniwyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009***.

1.8 Yn ystod Hydref 2009, cyhoeddwyd y cynigion dalgylchol cyntaf oedd yn argymell trefniadaeth newydd i ddalgylch Tywyn. Ymgynghorwyd ar y cynigion a cafwyd penderfyniad i gyhoeddi rhybuddion statudol yn y dalgylch yn ystod Ionawr – Mawrth 2011.

1.9 Cynhaliwyd y drafodaeth yn nalgylch y Berwyn yn yr un modd. Daeth y Cyngor Llawn i benderfyniad mis Mai 2011.

1.10 Amlinellir isod gynigion ar gyfer ad-drefnu addysg dalgylch Y Gader.

## 2. ADOLYGU DALGYLCH Y GADER

### *2.1 Dulliau cyfathrebu*

2.1.1 Sefydlwyd nifer o fforymau i geisio barn wrth i'r Deilydd Portffolio Addysg ddatblygu ei chynigion, gan gynnwys:

- Panel Adolygu Dalgylch
- Cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol
- Sesiwn i blant a phobl ifanc ysgolion
- Cyfathrebu ehangach

2.1.2 Sicrhawyd hefyd bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i bawb oedd â diddordeb.

### *2.2 Panel Adolygu Dalgylch Y Gader*

2.2.1 Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch Y Gader yn ystod Ebrill 2010. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 29 Ebrill 2010. Cynhaliwyd 5 cyfarfod pellach ar 13 Mai 2010, 25 Mai 2010, 6 Gorffennaf 2010, 25 Mai 2011 ac 13 Mehefin 2011.

2.2.2 Gwahoddwyd cynrychiolaeth - sef pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant lywodraethwr - o bob un o'r naw ysgol gynradd yn y dalgylch. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i bennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Y Gader, y cynghorwyr lleol, cynrychiolydd Esgobaeth Bangor a chynrychiolaeth o Goleg Meirion Dwyfor.

2.2.3 Derbyniwyd a thrafodwyd ystod o dystiolaeth gan y Panel, gan gynnwys pecyn o ystadegau ar yr ardal a gytunwyd gan y Panel cyfan fel adlewyrchiad cyflawn a theg. Wrth baratoi'r wybodaeth ystadegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgolion gyflwyno'u sylwadau, herio cynnwys y papurau a gofyn am unrhyw wybodaeth bellach fel yr oedd ei angen.

2.2.4 Cyflwynwyd hefyd wybodaeth ar:

- y cyd-destun ariannol
- gwybodaeth am ddatblygiadau cenedlaethol gan gynnwys arweiniad y Llywodraeth ar drafod cynigion i ad-drefnu ysgolion a rheoliadau newydd ar sefydlu patrymau o gydweithio rhwng ysgolion

2.2.5 Paratowyd rhestr hir o opsiynau posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch. Mireiniwyd y rhestr hir i 14 prif fodel i'w hystyried ymhellach. Derbyniwyd dadansoddiad o oblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol pob un cynnig yng nghyfarfod y Panel ar 25 Mai 2010, a thrafodwyd yr opsiynau eto mewn manylder yng nghyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch ar 6 Gorffennaf 2010. Trafodwyd 14 model yn cwmpasu:

- ➢ Datblygu modelau o gydweithio
- ➢ Modelau o ysgolion ardal gwledig
- ➢ Cymuned Ddysgu neu Ysgol Gydol Oes

### *2.3 Cyfarfodydd gydag ysgolion unigol*

2.3.1 Cynhaliwyd ymweliad â phob ysgol yn y dalgylch gan y Deilydd Portffolio Addysg a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol ar gychwyn y broses. Pwrpas yr ymweliad oedd cyfarfod penaethiaid ac i weld a dod i ddeall sefyllfaoedd ysgolion unigol.

2.3.2 Cynhaliwyd un cylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, yn ystod cyfnodau 7 Mehefin - 23 Mehefin 2010. Estynnwyd gwahoddiad agored i staff, llywodraethwyr a rhieni i fynychu cyfarfodydd ar wahân. Bu cyfle i drafod materion cyffredinol gan gynnwys y modelau penodol oedd dan sylw.

2.3.3 ***Cynhaliwyd felly 30 o gyfarfodydd unigol ar draws cyfnod o 16 diwrnod gyda chynrychiolwyr ysgolion unigol.***

### *2.4 Plant a Phobl Ifanc*

2.4.1 Yn ystod cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu Dalgylch ar 4 Tachwedd 2009, awgrymwyd y dylid gofyn am farn plant a phobl ifanc wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Cytunwyd i hyn gan gynrychiolwyr pob ysgol yn y Panel Adolygu Dalgylch.

2.4.2 Hysbyswyd ysgolion unigol y byddai'r sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc yn digwydd yn Ysgol Uwchradd Y Gader. Gofynnwyd i ysgolion drefnu cynrychiolaeth o aelodau'r Cyngor Ysgol, a chytunwyd y dylid cynnwys 3-4 o blant o bob ysgol. Hwyluswyd y sesiwn ar 5 Gorffennaf 2010 gan swyddogion arbenigol y Cyngor.

2.4.3 Cynhaliwyd ystod o weithgareddau er mwyn canfod barn plant a phobl ifanc ar nifer o bynciau, gan gynnwys:

- maint dosbarthiadau
- ystod oedran o fewn dosbarth
- iaith plant tu allan i'r ystafell dosbarth
- pellteroedd teithio i'r ysgol

2.4.4 Wrth gloi'r sesiwn, gofynnwyd i blant a phobl ifanc awgrymu'r math o gyfleusterau yr hoffent eu gweld mewn ysgol. Yn gyffredinol, dangosodd y plant deyrngarwch i'w hysgolion a'u hathrawon tra hefyd yn adnabod nifer o adnoddau yr hoffent weld yn eu hysgolion.

### *2.5 Mewnbwn Aelodau*

2.5.1 Wrth dderbyn strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* yn ddiwrthwynebiad, rhoddodd y Cyngor ganiatâd i aelodau'r Gweithgor Gwella barhau fel

fforwm i gefnogi'r Deilydd Portffolio Addysg wrth iddi arwain adolygiadau fesul dalgylch. Gwnaethpwyd hynny dan enw *Panel Ymgynghorol Sirol*.

2.5.2 Yn ystod y broses o drafod yn nalgylch Y Gader, fel rhan o adolygiad o weithrediad y Strategaeth Ad-drefnu disodlwyd y Panel Ymgynghorol Sirol gan Weithgor Gwella sydd yn gweithredu i raglen waith a briff y Pwyllgor Craffu.

2.5.3 Fel rhan o'r adolygiad yn ogystal, penderfynwyd fod angen sicrhau fod Aelodau lleol yn cyfarfod yn ystod y broses o ad-drefnu dalgylch.

2.5.4 Bu 4 cyfarfod o'r Panel Ymgynghorol Sirol i drafod datblygiadau yn nalgylch Y Gader, ar 24 Chwefror 2010, 24 Mawrth 2010, 8 Gorffennaf 2010 a 21 Hydref 2010. Yn ogystal, bu cyfarfod ar y cyd rhwng Aelodau Lleol ac Aelodau'r Gweithgor ar 18 Mai 2011. Trafodwyd sefyllfa'r dalgylch a chynigiwyd yr opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch, ochr yn ochr â dadansoddiad o fodelau a gynigiwyd gan y Panel Adolygu Dalgylch.

2.5.5 ***Trafodwyd y modelau ar gyfer y dalgylch yn ofalus gan y Panel, y Gweithgor a'r Aelodau Lleol - a mynegodd yr Aelodau eu sylwadau.***

### *2.6 Asesiad o Effaith Cymunedol ac Ieithyddol*

2.6.1 Fel rhan o'r broses comisiynwyd Cynghoriaeth Dylan Bryn Roberts i gynnal asesiad o effaith ieithyddol a chymunedol posib yr amryw gynigion ad-drefnu.

2.6.2 Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ysgolion unigol i gasglu gwybodaeth a chanfyddiadau. Paratowyd holiadur i gasglu barn staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach i'r opsiynau. Cylchredwyd copïau electroneg a chaled o'r holiadur.

2.6.3 Cyflwynwyd canfyddiadau'r asesiadau mewn cyfarfod arbennig o'r Panel Adolygu Dalgylch ar 29 Mehefin 2010. Mae canlyniadau'r asesiadau wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynigion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac ystyrir eu canfyddiadau ymhellach yn yr adroddiad hwn

2.6.4 Gellir gweld yr adroddiadau ar wefan y Cyngor, ac mae copïau ar gael i'w darllen fel a nodir yn Atodiad 1.

### *2.7 Cyfathrebu ysgrifenedig*

2.7.1 ***Paratowyd newyddlenni i'w cylchredeg i bob ysgol yn ystod y trafodaethau dalgylch. Anfonwyd copïau caled at yr ysgolion i'w cylchredeg i bob rhiant, e-bostiwyd y newyddlen at bob ysgol a chyhoeddwyd y newyddlenni ar wefan y Cyngor.***

2.7.2 Cyhoeddwyd holl bapurau'r Panel Adolygu Dalgylch ar wefan y Cyngor.

2.7.3 Rhoddwyd manylion cyswllt swyddogion oedd yn ymwneud â'r gwaith ar y wefan.

### *2.8 Statws y broses*

2.8.1 Noder fod y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy hyd yn hyn yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth wrth lunio cynigion cychwynnol.

2.8.2 Cyhoeddwyd Cylchlythyr 021/2009 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion* ar 18 Medi 2009 ac fe luniwyd y cynigion yma gan ddal sylw at yr arweiniad yma. .

2.8.3 ***Cadarnheir felly nad yw'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy wrth lunio'r cynigion hyn yn rhan o'r broses statudol o adolygu'r ddarpariaeth yn nalgylch Y Gader. Mae'r trafodaethau hyd yn hyn yn ychwanegol i'r hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru***.

## 3. Y BROSES O DDATBLYGU CYNIGION AR GYFER DALGYLCH Y GADER

3.1 Daeth i'r amlwg yn fuan iawn yn ystod y broses o drafod opsiynau yn y dalgylch hwn nad oedd atebion clir a syml. Yn wir, fel nodwyd eisoes, trafodwyd cymaint ag 14 o fodelau mewn manylder. Yn ystod pedwerydd cyfarfod o'r Panel Adolygu Dalgylch, gynhaliwyd 6 Gorffennaf 2010, penderfynodd yr Arweinydd Portffolio nad oedd modd dod i gasgliad â gwneud cynigion ar gyfer y dalgylch bryd hynny.

### 3.2 Dyma'r rhesymau pam yr oediad yn y drafodaeth

3.2.1 <u>Gwaith ymchwil ar safleoedd a gwaith modelu</u>:

3.2.1.1 Nodwyd fod angen cryn waith pellach o ran safleoedd i gyd-fynd â modelau posib, a bod angen ystyriaeth pellach i'r modelau gynigwyd. Roedd gwaith asesu safleoedd angen ei gyflawni, ac ystyriaeth rhwng hynny a'r model posib ar gyfer y dalgylch. Comisiynwyd Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor i wneud gwaith ar opsiynau safleoedd a gwnaed gwaith pellach ar y modelau drafodwyd.

3.2.2 <u>Newidiadau i argaeledd a dull ariannu prosiectau cyfalaf cenedlaethol</u>:

3.2.2.1 Yn ystod y misoedd diwethaf amlygwyd effaith y dirwasgiad, gyda thoriad o 40% mewn arian cyfalaf cyhoeddus. Felly, mae arian ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y sector gyhoeddus wedi prinhau. Heb os, bydd gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru yn wynebu toriadau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf, a bydd hyn yn debygol o gael effaith ar holl wasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys Addysg.

3.2.2.2 Yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal, newidiwyd dull ariannu'r Cynulliad i gynlluniau cyfalaf ar gyfer adeiladau ysgolion. Arferid cael ffenestr ariannu blynyddol ble roedd modd i Awdurdodau gyflwyno bid am arian cyfalaf ar gyfer prosiectau o'r fath.

3.2.2.3 Yn ystod y flwyddyn diwethaf daeth dull newydd drwy Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Gofynnir nawr i Awdurdodau gyflwyno bidiau fesul band dros gyfnodau o amser. Mae'n ofynnol i awdurdodau adnabod anghenion gwariant fesul "bandiau" gwariant. Roedd gofyn i awdurdodau gyflwyno ceisiadau Band A - sef cyfnod 2012-2015 mewn peth manylder gyda'r cais. Cyflwynwyd manylion ceisiadau Band A Gwynedd i gyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2010.

3.2.2.4 Golygai hyn fod oediad amser yn cael ei roi i mewn yn y broses pryd fyddo'r cyfle i gyflwyno bid am arian, ond gan ystyried effaith y toriad mewn arian cyfalaf cyhoeddus yn ogystal – mae cystadleuaeth frwd am arian cyfalaf ar hyn o bryd, ac i'r dyfodol.

3.2.3 <u>Adolygiad o weithrediad Strategaeth Ad-drefnu Cyngor Gwynedd</u>:

3.2.3.1 Cefnogwyd y *Strategaeth Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* yn ddiwrthwynebiad gan Gyngor Gwynedd yn Ebrill 2009, ond wedi 18 mis o weithrediad y strategaeth daeth i'r amlwg fod angen edrych ar rai agweddau o'i gweithrediad.

3.2.3.2 Wrth ystyried y materion ddaeth i'r amlwg yn yr adolygiad, penderfynodd cyfarfod o'r Cyngor Llawn 16 Rhagfyr 2010 fel a ganlyn:

- i gynnwys gweddill darpariaeth addysgol y sir yn y broses o'r meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig, a champysau gydol oes
- i ail-sefydlu Gweithgor Gwella Trefniadaeth Addysg dan arweiniad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i gymryd trosolwg o holl ddarpariaeth addysgol y sir
- i dderbyn yr angen i resymoli nifer ysgolion yn y sir er mwyn sicrhau rhwydwaith o'r niferoedd cywir o ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir
- i gymryd ystyriaeth lawn o'r cyd-destun cenedlaethol a sirol, gan gynnwys materion cyllidol a'r angen i ddatblygu rhaglen fuddsoddi cyfalaf tymor hir
- i gynnal ystod eang o waith rhagbaratoi yn ystod y misoedd nesaf er mwyn darparu'r wybodaeth ar gyfer y trafodaethau a chyflymu'r adolygiadau dalgylch
- cynnal asesiad sylfaen o faterion ieithyddol, cymunedol, economaidd a chydraddoldeb ar draws y sir a chynnal asesiad cychwynnol o effaith rhai o'r modelau ad-drefnu posib ar y materion hynny
- i roi llawer mwy o flaenoriaeth i sefyllfaoedd argyfyngus a chynllunio rhaglen ymateb
- parhau i gynnal adolygiadau ar lefel dalgylch a thrwy ymgynnull Panel Adolygu Dalgylch ar sail y gwaith rhagbaratoi a nodir uchod
- i sicrhau fod Aelodau lleol yn cyfarfod yn ystod y broses o addrefnu dalgylch.

3.2.3.3 Cymeradwywyd strategaeth *Tuag at 2025* gan Gyngor Gwynedd ar 21 Hydref 2010. Dyma'r strategaeth sy'n gosod cyfeiriad strategol hir dymor i addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc 3-19 yng Ngwynedd, ac yn cynnig ein safbwynt fel Cyngor i ddatblygiadau polisi cenedlaethol, fel Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

3.2.3.4 Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth i:

"*...gynnig addysg a hyfforddiant dwyieithog o'r ansawdd uchaf posib fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant a phobl ifanc y Sir a'u galluogi i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn*".

## 4. CYNIGION DALGYLCH Y GADER

4.1. Wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer y dalgylch, daeth i'r amlwg bod modd rhannu'r dalgylch yn dair rhan:

- Ochr ddwyreiniol – Sydd yn cwmpasu Ysgolion Brithdir, Llanfachreth (adweinir hefyd fel Ysgol Machreth), Ieuan Gwynedd a Dinas Mawddwy
- Ochr Orllewinol – Sydd yn cwmpasu Ysgolion Llanelltyd, Clogau, Ganllwyd a'r Friog

- Tref Dolgellau – Sydd yn cwmpasu Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Uwchradd Y Gader

4.2. Trafodwyd opsiynau yn seiliedig ar y dosbarthiad yma am y rhesymau canlynol:

- Lleoliad daearyddol ac amseroedd teithio
- Dymuniad lleol yn nodi na fyddai ysgol fawr wedi ei chanoli ar gyfer y dalgylch cyfan yn cael ei chefnogi
- Rhesymau datblygu safleoedd ac adeiladu
- Amcanion Strategaeth Ad-drefnu y Cyngor yn enwedig felly o ran sicrhau datblygu ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

4.3. Ar Fehefin 13, 2011 cyflwynodd y Deilydd Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Gader i'r Panel Adolygu'r Dalgylch, sef:

- Sefydlu Ysgol Ardal aml-safle – gyda un safle'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a'r safle arall unai ar leoliad presennol ysgol Brithdir neu ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Golygai hyn y byddai'r naill leoliad neu'r llall yn cau fel ysgol. Fel rhan o'r argymhelliad hwn bydd ysgol Llanfachreth yn cau yn ogystal a'r ddarpariaeth yn cael ei gynnig yn yr Ysgol Ardal.

- Oedi'r drafodaeth am y tro yn ardal gorllewinol y dalgylch, (dalgylch ysgolion Llanelltyd, Clogau, Ganllwyd a'r Friog) gan sicrhau fod yr ardal yma o'r dalgylch yn cael ei flaenoriaethu yn rhan nesaf o'r broses ad-drefnu ysgolion.

- Yr argymhelliad ar gyfer tref Dolgellau sefydlu Cymuned Ddysgu (ysgol) gydol oes aml-safle 3 i 16 oed.

  Nodwyd ar y pryd opsiynau buddsoddiad gyda'r cynnig drwy unai;

  - Sefydlu model aml-safle heb ddim buddsoddiad cyfalaf o gwbwl;
    neu
  - Ofyn i Gyngor Gwynedd ystyried buddsoddi oddeutu £1.95miliwn i wneud gwelliannau ar gyfer safle presennol yr ysgol gynradd fel bod modd cael yr adeiladau dysgu ar un safle,
    neu
  - Ofyn i Gyngor Gwynedd wneud cais oddeutu £4.5miliwn am arian cyfalaf i Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar hugain y Cynulliad i ddatblygu darpariaeth ar safle ysgol Y Gader ar gyfer Cyfnod Allweddol 2.

4.4 Wrth ddatblygu a thrafod opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Gader, daeth i'r amlwg nad oedd modd cynnig ateb ar gyfer y dalgylch cyfan ar hyn o bryd. Nodwyd fel un o egwyddorion y Strategaeth Ad-drefnu;

*"Bod graddfa, natur ac amserlen y newid am amrywio o ddalgylch i ddalgylch"*

4.5 Cynigir yma grynodeb o'r rhesymeg tu ôl i'r cynigion sydd yn cael eu cyflwyno a rhesymau pam fod oedi yn rhan o'r dalgylch. Cynigir dadansoddiad llawn o'r rhesymeg

dros y cynigion yn rhan nesaf o'r adroddiad, gyda gwybodaeth gefndirol pellach yn yr atodiadau.

## 5. GWYBODAETH AM Y CYNNIG AR GYFER OCHR DDWYREINIOL O'R DALGYLCH

### 5.1 Cyd-destun:

5.1.1 Yr hyn olygir wrth ardal ddwyreiniol o'r dalgylch yw dalgylchoedd:

- Ysgol Brithdir,
- Ysgol Llanfachreth (adweinir hefyd fel Ysgol Machreth),
- Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain ac
- Ysgol Dinas Mawddwy

5.1.2 Penderfynwyd fod angen blaenoriaethu sefyllfa ochr ddwyreiniol o ddalgylch Y Gader am y rhesymau canlynol:

- Ansicrwydd ynglŷn a **sefyllfa arweinyddiaeth** 2 ysgol o ganlyniad i drosiant staff

- Mae'r **4 ysgol** yn yr ardal **yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol** trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn £111,616 rhwng y 4 ysgol

- **Dyrennir cyfanswm o £593,916 i'r 4 ysgol** yn y rhan yma o dalgylch Y Gader yn 2011/12. Mae hyn gyfystyr â £5883 fesul disgybl ar gyfartaledd, Mae amrediad rhwng ysgolion o £3910 (Brithdir) i £7519 (Ieuan Gwynedd). Amrediad cyfartaledd sirol am y cyfnod hwn ydyw **£3,352**.

- Mae rhagolygon niferoedd mewn 3 o'r ysgolion yn creu pryder. Mae'r rhagolygon fel a ganlyn ar gyfer 2013;
  Ysgol Ieuan Gwynedd – 15 (**Mae rhagolygon Medi 2011 yn nodi 15**)
  Llanfachreth - 20 a
  Dinas Mawddwy – 23.

- Mae **nifer o lefydd gweigion** (94 mewn nifer) - 43% o fewn y 4 ysgol neu 58% heb ystyried sefyllfa ysgol Brithdir. Mae hyn yn golygu, wrth ystyried llefydd gweigion ysgolion Ieuan Gwynedd, Llanfachreth a Dinas Mawddwy fod **mwy o lefydd gweigion na sydd o blant yn mynychu'r ysgolion**.

- Mae **capasiti ysgol Brithdir yn orlawn** (Mae 40 disgybl mewn ysgol â chapasiti i 38)

- Mae **Ysgol Dinas Mawddwy yn ddaearyddol ynysig** ac yn darparu addysg ar gyfer ardal eang.

- **Mae achos clir a'r angen i sicrhau sefydlogrwydd tymor hir i'r darpariaeth addysg yn yr ardal wledig yn rhan yma o'r dalgylch.**

## 5.2 Y Cynnig ar gyfer yr ardal:

5.2.1 Yr argymhelliad ar gyfer ochr ddwyreiniol yw:

Sefydlu Ysgol Ardal aml-safle – gyda un safle'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a'r safle arall unai ar leoliad presennol ysgol Brithdir neu ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Byddai yn golygu y byddai'r naill leoliad neu'r llall yn cau fel ysgol. Fel rhan o'r argymhelliad hwn bydd ysgol Llanfachreth yn cau, a'r ddarpariaeth yn cael ei gynnig yn yr Ysgol Ardal.

5.2.2 Ystyriwyd nifer o fodelau eraill yn ystod y broses yn cynnwys;

Modelau o gydweithio
Gwahanol ffurfiau o Ysgol Ardal – yn cynnwys model yn cau safle Dinas Mawddwy
Ffurfiau o Gymuned Ddysgu neu Ysgol Gydol Oes – yn cynnwys un safle canolog gyda lloerennau a chanoli yr holl ddarpariaeth addysg yn y dalgylch

5.2.3 Mae ystyriaeth lawn o'r modelau hyn yw gweld yn Atodiad 3 o'r adroddiad hwn, gyda manteision ac anfanteision yr holl fodelau ystyriwyd yn nhrafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch ynghyd a gwybodaeth cyllidol wedi eu nodi.

## 5.3 Gwybodaeth ychwanegol am y cynnig gerbron - Beth yw ystyr Ysgol Ardal Aml-Safle yn yr achos yma?

5.3.1 Yr hyn olygir wrth Ysgol Ardal Aml-Safle ydyw y bydd un safle ysgol bresennol yn cael ei hymestyn a'i huwchraddio fel prif safle'r Ysgol Ardal, gyda dwy ysgol arall yn cau. Bydd ail safle i'r Ysgol Ardal mewn lleoliad arall. Nodir y rhesymau pam fod angen yr ail safle yn Ninas Mawddwy isod.

5.3.2 Prif nodweddion Ysgol Ardal yw:

- Yn gyfreithiol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol,
- Bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol
- Bydd y ddau safle yn derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol
- Un gyllideb ac
- Un corff llywodraethol

## 5.4 Pam argymell Ysgol Ardal?

5.4.1 Argymhellir sefydlu Ysgol Ardal yn rhan yma o'r dalgylch ar ôl ystyried nifer o ffactorau, sydd yn cynnwys;

- Maint dosbarthiadau
- Niferoedd disgyblion
- Arweinyddiaeth
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Amgylchedd ac ansawdd dysgu
- Amseroedd teithio

Rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau hyn ac eraill isod.

5.4.2. Maint Dosbarthiadau

5.4.2.1 Maint dosbarthiadau'r 4 ysgol ar gyfartaledd heddiw yw 13, gydag amrediad maint dosbarth rhwng 10 ag 20. Nodir fod ysgol y Brithdir dros ei chapasiti a'r 3 ysgol arall gyda nifer (58% neu 94) o lefydd gweigion (gyda ysgol Llanfachreth gyda 52% o lefydd gweigion ac Ieuan Gwynedd gyda 58%).

5.4.2.2 Mae astudiaeth o ystod o dystiolaeth yn amlinellu'r farn gyffredinol - a gadarnhawyd ym mholisi'r Llywodraeth - fod dosbarthiadau o dros 30 o ddisgyblion yn annerbyniol i blant dan 7 oed ac yn annymunol i blant o 7-11 oed.

5.4.2.3 Ymhellach, mae ymchwil diweddar yn awgrymu y gall dosbarthiadau fod yn rhy fach. Nododd Peter Blatchford yn ei gyhoeddiad "The Class Size Debate: Is Small Better" *"…it may also be worth considering that class sizes can be too small"* gan adrodd bod athrawon wedi awgrymu *"…the dynamics of the group could become flat and some children could dominate"*.

5.4.2.4 Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009 yn nodi uchelgais i sicrhau dosbarthiadau rhwng 12-25 yn nifer y disgyblion

5.4.2.5 O wireddu'r argymhellion, bydd maint dosbarthiadau'r ardal hon ar gyfartaledd oddeutu 20. Rhagwelir cyfartaledd maint dosbarthiadau prif safle'r ysgol fydd 25, tra fydd maint dosbarthiadau'r ail safle yn oddeutu 12.

5.4.3 Niferoedd Disgyblion

5.4.3.1 Mae niferoedd disgyblion oed cynradd rhan yma o'r dalgylch wedi amrywio yn fawr ers 1975. Gwelwyd cynnydd mewn dwy ysgol (cynnydd sylweddol – 90% yn niferoedd ysgol Brithdir) a lleihad mewn 2 o'r ysgolion eraill. Yn ôl ffigyrau a gyflwynwyd gan ysgolion unigol ac a wiriwyd ac a gadarnhawyd gan ysgolion, disgwylir i'r niferoedd leihau (tua 12%) yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae pob ysgol, heblaw ysgol Brithdir yn rhagweld lleihad yn niferoedd ei disgyblion yn amrywio rhwng 8% i 21% gyda rhagolygon ysgol Ieuan Gwynedd gyda chyn lleied â 15 disgybl erbyn 2011.

5.4.3.2 Mae safonau addysg yn greiddiol i'r cynigion. Er bod yna ragdybiaeth cyffredinol bod safonau addysg mewn ysgolion bach yn uwch nag mewn ysgolion mwy, nid oes tystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth. Yn wir, mae adroddiad ESTYN *Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru(2003)* yn nodi nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion mawr a bach, ond *"…lleia'n y byd yw'r ysgol, yr anoddaf yw'r dasg yn aml i'r athro gydweddu gwaith i holl anghenion dysgu'r disgyblion.* Â'r adroddiad ymlaen i *nodi "…gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion bach gydweddu gwaith ag anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion ym mhob dosbarth wahaniaethu'n fawr o ran oed a chyfnodau datblygu. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ysgolion lleiaf (gyda hyd at 30 o ddisgyblion), lle mae 28% o waith anfoddhaol o gymharu ag 8% o waith anfoddhaol mewn ysgolion â dros 210 o ddisgyblion'.*

5.4.3.3 O wireddu'r cynnig byddai gan yr Ysgol Ardal oddeutu 96 o ddisgyblion, gyda oddeutu 73 o ddisgyblion ar un safle ac oddeutu 23 ar safle Dinas Mawddwy. Er fod niferoedd

Dinas Mawddwy yn isel, mae ffactorau eraill, fel y nodir isod, yn egluro pam yr argymhellir cadw'r safle yn rhan o'r Ysgol Ardal.

5.4.4 Ansawdd Addysg a'r Amgylchedd Dysgu

5.4.4.1 Noda arolygon diweddar Estyn fod y 4 ysgol yma yn darparu addysg o ansawdd da heb ddim diffygion o bwys. Ni fynegwyd pryderon neu amheuon am safon yr addysg yn r'un o'r ysgolion.

5.4.4.2 Mae'r strategaeth a gymeradwywyd yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor yn Ebrill 2009 yn nodi bod amgylchiadau addysgu a dysgu yn greiddiol i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.

5.4.4.3 Mae adroddiad ESTYN *"Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd*" (2007) yn cadarnhau'r farn uchod. Noda'r adroddiad bod ysgolion oedd wedi gweld eu hadeiladau'n cael eu hadnewyddu wedi gweld gwelliant mewn cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. Nodir bod arolygiadau Estyn o ysgolion unigol yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella, bod morâl staff wedi codi, bod presenoldeb wedi'i gynnal ac ymddygiad wedi gwella a bod adeiladau wedi eu gwella yn cynnig mwy o ddewis a darpariaeth well o ran addysg o fewn yr ysgol a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.

5.4.4.4 Mae asesiadau diweddar yn amcangyfrif bod angen gwario tua £2.1m ar atgyweirio ac addasu'r 3 ysgol gynradd bresennol os am gyrraedd safonau adeiladau'r unfed ganrif ar hugain. O gau dau safle – byddai hyn yn lleihau'r angen gwario rhwng isafswm o £1.2m a £1.58m, ond byddai hyn yn sicrhau buddsoddiad sylweddol ar y safle a ddatblygir fel prif safle'r Ysgol Ardal.

5.4.5 Arweinyddiaeth a Staffio

5.4.5.1 Mae'r 4 ysgol heddiw yn derbyn cyllideb ddigonol i ariannu 8 o athrawon cynradd llawn amser, gyda 4 ohonynt yn benaethiaid. Ond oherwydd trosiant staff, mae dwy o'r 4 ysgol yn wynebu sefyllfa o orfod llenwi swydd y Pennaeth.

5.4.5.2 Petai'r drefniadaeth newydd yn dod i rym, wrth edrych ar y rhagolygon niferoedd mae'n debygol y byddai cyllideb ar gyfer 5 o athrawon cynradd (llawn amser) ar gyfer yr Ysgol Ardal yn ei chyfanrwydd. Mae union natur y cydweithio a rhannu staff rhwng dwy safle'r ysgol i'w drafod ymhellach ac yn fater fyddai angen sylw corff llywodraethol yr Ysgol Ardal. Bydd yr Ysgol yn endid newydd, ac felly rhagwelir y bydd angen i'r corff llywodraethu newydd benodi'r Pennaeth a'r staff ar gyfer yr ysgol.

5.4.5.3 Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig hwn. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. Mater i Gorff Llywodraethu'r Ysgol Ardal fydd strwythur staffio. Fodd bynnag, awgryma'r Cyngor y dylai'r Ysgol Ardal geisio clustnodi'r swyddi sy'n deillio o weithredu'r drefn newydd ar gyfer athrawon sydd yn gweithio o fewn y 4 ysgol yn y lle cyntaf, ac yna i ysgolion eraill cylch Dolgellau.

5.4.6 Y Gymuned

5.4.6.1 Cyhoeddwyd dadansoddiad o'r defnydd cymunedol o bob ysgol, a chyfraniad ysgolion i'w cymunedau, yn y pecyn ystadegol. Rhestrwyd hefyd adnoddau (e.e. canolfannau cymunedol, caeau chwarae ayb).

5.4.6.2 Mae canllawiau'r Llywodraeth (Cylchlythyr 021/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) ar ad-drefnu ysgolion yn nodi ffactorau sydd angen eu hystyried wrth lunio cynigion i ad-drefnu ysgolion. Mae gwybodaeth ar y ffactorau a ystyriwyd yn nadansoddiad ystadegol o'r dalgylch ar gael ar wefan y Cyngor. Comisiynwyd astudiaeth o effaith cymunedol posib yr amryw opsiynau gan ymgynghorwyr annibynnol fel rhan o'r broses o ddatblygu cynigion. Yn ogystal, comisiynwyd asesiad o effaith economaidd i gyd-fynd â'r astudiaeth cymunedol. Gellir gweld yr adroddiadau ar wefan y Cyngor ac mae copïau ar gael i'w harchwilio fel nodir yn Atodiad 1.

5.4.6.3 Wrth edrych ar asesiad wnaethpwyd o effaith posib nifer o'r modelau cychwynnol ystyriwyd, roedd yr asesiadau cymunedol ac economaidd fel eu gilydd yn nodi categorïau o effeithiau mathau gwahanol o fodelau. Yn gryno, yr hyn nodwyd oedd fod cau ysgolion yn yr ardaloedd gwledig mewn unrhyw fodel yn cael effaith negyddol – golygai hyn fod unrhyw fodel o ysgol ardal neu fodel gydol oes yn cael effaith tebyg. Yr unig fodel na fyddai yn cael effaith negyddol – effaith niwtral, fyddai model o gydweithio olygai mewn gwirionedd na fyddai newid mewn presenoldeb ysgol o fewn pentrefi unigol.

5.4.6.4 Wrth i fodelau penodol gael eu datblygu – mireiniwyd yr asesiad ar gyfer y modelau Ysgol Ardal. Nodwyd fod cau ysgolion wrth sefydlu'r Ysgol Ardal yn mynd i gael effaith negyddol yn gymunedol ac yn economaidd yn y cymunedau hynny ble mae ysgolion yn cau. Ar y llaw arall, tra yn cydnabod fod perygl symud plant o leoliad Dinas Mawddwy yn rheolaidd, mae'r asesiad cychwynnol o fodelau â lloerennau yn nodi fod y math hwn o fodel yn llai niweidiol na chau'r safle.

5.4.6.5 Ar gyfer y cymunedau hynny ble fydd ysgol yn cau, mae'r ardrawiad yn argymell rhai mesurau i'r Cyngor eu hystyried er mwyn lliniaru'r effaith negyddol, megis:

- Sicrhau cefnogaeth i gymunedau ble mae ysgolion yn cau er mwyn ceisio cynnal sefyllfa'r cymunedau hynny.
- Cynnig cefnogaeth i'r cymunedau hynny iddynt fedru ystyried defnydd gorau o adeilad yr ysgol ar ôl iddi gau.
- Cynllunio i sicrhau fod yr Ysgol Ardal yn cynhwyso pentrefi dalgylch yr ysgol mewn gweithgareddau a chynnal gweithgareddau achlysurol yn y pentrefi hynny.
- Cynnig darpariaeth cludiant i hwyluso cludiant plant o gymunedau yn effeithiol a diogel.
- Ceisio cyfyngu amser teithio plant i'r Ysgol Ardal i'r targed Sirol (30 munud) gan asesu bodlonrwydd rhieni a phlant ar y trefniadau cludo o ran prydlondeb a diogelwch.
- Ceisio sicrhau darpariaeth cludiant sydd yn cyd-fynd â gweithgareddau allgyrsiol fel bod modd lleihau'r angen am ofyn gan rieni i gludo plant.

5.4.6.6 Bydd y mesurau lliniaru hyn yn cael eu hymgorffori yn rhaglen waith pe penderfynir gweithredu ar yr argymhellion yn yr ardal.

5.4.7 Adnoddau Ariannol

5.4.7.1 Dyrennir cyfanswm o £593,916 (heb gynnwys unedau AAA ac integreiddio) i'r 4 ysgol yn y rhan yma o dalgylch Y Gader yn 2011/12. Mae hyn gyfystyr â £5883 fesul disgybl ar gyfartaledd, er bod amrediad rhwng ysgolion o £3910 (Brithdir) i £7519 (Ieuan Gwynedd). Amrediad cyfartaledd sirol am y cyfnod hwn ydyw £**£3,352**.

5.4.7.2 Cyfanswm dyraniad newydd yn sgil y drefniadaeth argymhelliedig ar gyfer yr ardal - ar sail y dyraniad cyfredol fyddai £413,803. O ran costau refeniw, byddai sefydlu'r drefniadaeth newydd yn arbed £180,000 llai anghenion cludiant ychwanegol a amcangyfrifir fel £48,000, sef £132,000 y flwyddyn.

5.4.7.3 Mae'r 4 ysgol yn yr ardal yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio sydd yn gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn £111,616. O gymharu, o wireddu'r cynnig, bydd swm ychwanegol o £69,069 i'r dyraniad arferol fel lwfans aml-safle.

5.4.7.4 Os derbynnir y cynigion, mae gan y Cyngor gynllun i gadw 20% o unrhyw arbedion o fewn y dalgylch gydol y broses ad-drefnu ar draws y sir, a hynny er mwy cwrdd ag amcanion strategaeth y sir.

5.4.8 Yr Iaith Gymraeg

5.4.8.1 Cyflwynwyd dadansoddiad o gefndir ieithyddol pob ysgol - ar sail gwybodaeth a gasglwyd wrth baratoi Asesiad Iaith o bob ysgol yn y sir yn ystod gwanwyn 2008 - yn y pecyn ystadegau. Cynigiwyd cyfle i ysgolion herio'r dystiolaeth, a gwnaethpwyd hynny gan rai. Cytunwyd ar y dadansoddiad yn dilyn hynny.

5.4.8.2 Rhoddwyd ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y dalgylch i dynnu ysgolion ieithyddol tebyg at ei gilydd.

5.4.8.3 Comisiynwyd Asesiad o Effaith Ieithyddol yr amryw fodelau a ystyriwyd yn y dalgylch wrth ddatblygu'r cynnig hwn. Cyflawnir hyn yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yng Nghylchlythyr 021/2009. Cyhoeddir yr adroddiad cyfan ar wefan y Cyngor. O ran y cynnig hwn o sefydlu'r Ysgol Ardal, noda'r Asesiad Iaith y byddai sefydlu'r model hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

5.4.8.4 Mae dyfarniad sgôr asesiad Ysgol Ardal wledig (Brithdir, Llanfachreth a Ieuan Gwynedd) ar un safle a disgyblion Dinas Mawddwy ar safle arall > +6 Cadarnhaol. Nodir fod defnydd cymdeithasol iach o'r Gymraeg ymhob un o'r ysgolion – yn arbennig y dair ysgol fydd yn uno ar un safle. Ni cheir arwyddion o ddirywiad ieithyddol cymdeithasol nac academaidd. Nodwyd fod gan y model hyfedredd ddwyieithog. Nodwyd yn ogystal y gall dylanwad 3 ysgol ar ysgol Dinas Mawddwy fod yn fodd i atgyfnerthu'r Gymraeg. **Daw'r asesiad i ganlyniad felly y byddai Ysgol Ardal yn fodd o atgyfnerthu'r Gymraeg a hynny mewn sefydliad mwy allai ddatblygu'n bwerdy ieithyddol cadarnhaol.**

5.4.9 Statws Grefyddol

5.4.9.1 Mae gan Ysgol Llanfachreth statws Eglwysig (Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth). Byddai cau yr ysgol ag oblygiadau o ran y ddarpariaeth Eglwysig. Bydd angen asesu effaith hyn gyfochrog ag effaith cynigion eraill yn y dalgylch. Yr Eglwys sydd â pherchnogaeth prif safle Ysgol Llanfachreth, gyda rhannau eraill o'r tir â chyfamodau. Bydd rhaid edrych yn fanylach ar oblygiadau'r cyfamodau ar ôl ddefnydd y safle hyn os penderfynir gweithredu'r cynnig hwn.

5.4.10 Ffactorau Daearyddol

5.4.10.1 Anelwyd at gyfyngu teithio lle bo hynny'n bosib. Mae'r cynnig gerbron yn cyfarfod â gofynion y strategaeth o safbwynt teithio, sef i gyfyngu teithio i ddim mwy na 30 munud un ffordd.

5.4.10.2 Wrth ddatblygu'r cynigion, ystyriwyd fod Ysgol Dinas Mawddwy eisoes yn Ysgol Ardal,
ac yn darparu addysg ar gyfer ardal eang ble mae rhai plant eisoes yn teithio pellter i'r ysgol. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith fod lleoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy gryn bellter o'r lleoliadau eraill, dros 8 milltir o'r lleoliad agosaf. Ystyriwyd hefyd amser teithio rhai disgyblion Dinas Mawddwy o'u cartrefi gan fod rhai yn teithio hyd at 25 munud i'r ysgol yn nawr. Awgrymwyd felly fod angen parhau â'r ddarpariaeth addysg ar y safle hynny.

## 5.5 DEWIS SAFLE AR GYFER YR YSGOL ARDAL

5.5.1 Cefndir:

5.5.1.1 Wrth ddatblygu'r cynnig ar gyfer rhan yma o ddalgylch Y Gader, fel y nodwyd eisoes argymhellir fod un safle'r Ysgol Ardal ar safle presennol Ysgol Dinas Mawddwy, tra fod angen penderfynu ar leoliad prif safle'r Ysgol Ardal.

5.5.1.2 Wrth ddatblygu'r cynnig o Ysgol Ardal amcangyfrifwyd y byddai datblygu ysgol gyfan-gwbl o'r newydd yn costio oddeutu £3.8m. Amcangyfrifwyd y gellir datblygu un o'r safleoedd presennol ar gost o rhwng £1.1m ac £1.5m.

5.5.1.3 Gwnaed gwaith ymchwil cychwynnol ar gyfer safle newydd i'r Ysgol Ardal, ond argymell lleoli'r ysgol ar safle un o'r ysgolion presennol am y rhesymau canlynol:

- Nodwyd uchod bod cryn fyrder i luno ymateb i sefyllfa rhan yma o'r ardal.
- Amcangyfrifir y byddai cost ysgol newydd ar safle newydd oddeutu £3.8miliwn. Oherwydd maint y swm byddai rhaid i'r Cyngor wneud bid am arian o gronfa Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain y Cynulliad.
- O'r wybodaeth sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd, ni fyddai modd cyflwyno bid cychwynnol i'r Cynulliad am arian Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain tan oleiaf 2016/17. Golygai hyn na fyddai ysgol yn barod tan oleiaf 2018 o ystyried y gwaith adeiladu.
- Ni fyddai sicrwydd o lwyddiant unrhyw fid oherwydd y gystadleuaeth fydd am arian o'r gronfa gyfalaf erbyn hynny.

- Rhaid ystyried hefyd problemau posib cael caniatâd cynllunio ar safle newydd gan fod yr ardal o fewn Y Parc Cenedlaethol.
- Mae mwy nag un opsiwn ar gyfer datblygu safle un o safleoedd yr ysgolion presennol. Byddai'r opsiynau hyn o fewn cyrraedd y Cyngor yn ariannol iw ystyried, ond hefyd yn ateb gofynion technegol ar gyfer eu datblygu.

5.5.1.4 **Roedd barn gref gan y Panel Adolygu Dalgylch nad oedd modd oedi y gweithredu yn y rhan yma o'r dalgylch oherwydd ei sefyllfa bregus**.. Golygai hyn felly, tra yn gresynu na fyddai modd cael ysgol newydd, fod angen symud mlaen i ddatblygu'r Ysgol Ardal. **Yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin, cadarnhaodd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc y farn hon, bod rhaid symud ar gynllun i gael ateb buan ar gyfer yr ardal.** Trafodwyd y mater ymhellach yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor, 5 Gorffennaf.

5.5.2 <u>Ystyriaeth i safleoedd</u>:

5.5.2.1 Oherwydd eu lleoliad daearyddol o fewn yr ardal, rhwydwaith ffyrdd a phosibiliadau datblygu, edrychwyd ac aseswyd safleoedd presennol ysgolion y Brithdir ac Ieuan Gwynedd, Rhydymain fel lleoliadau posib ar gyfer prif safle yr Ysgol Ardal. Rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i safle presennol ysgol Llanfachreth, ond nodwyd pryder ynglŷn a hyfywdra'r lleoliad oherwydd ei lleoliad daearyddol a natur y rhwydwaith ffyrdd i'r safle.

5.5.2.2 O wireddu'r cynnig hwn byddai unai safle ysgol Brithdir neu ysgol Ieuan Gwynedd yn cael eu datblygu a'u gwella. Byddai'r argymhellion hyn yn sicrhau gwelliant yn yr amgylchedd ddysgu drwy fuddsoddiad sylweddol. Mae asesiad llawn o gryfderau a gwendidau a chyfleon a phroblemau datblygu a gwella safle Brithdir ac Ieuan Gwynedd ynghyd a sylwadau'r Panel lleol yn Atodiad 4.

5.5.2.3 Dyma rai o nodweddion safle Ieuan Gwynedd, Rhydymain:

- Safle presennol 0.3acer yn brin o gyfarfod â holl ofynion y Cynulliad ar gyfer ailddatblygiad.
- Yn dechnegol yn fymryn yn brin o gyrraedd y safonau
- Tir addas ar gael wrth gefn y safle.
- I gyrraedd y gofynion byddai angen gofod dysgu ychwanegol, ymestyn y neuadd, gofod staff/paratoi, gofod adnoddau dysgu, defnyddio "astroturf" er mwyn ceisio cyrraedd y gofynion gofod chwarae
- Cost datblygu oddeutu £1.1m

5.5.2.4 Dyma rai o nodweddion safle Brithdir:

- Dim modd ymestyn y safle heb brynu tir cyfagos. Mae'r arwynebedd yn llai na'r hyn sydd ei angen ar gyfer y niferoedd presennol h.y. cyn ychwanegu mwy o ddisgyblion.
- Trafodaethau cadarnhaol gyda'r perchennog tir.
- Er mwyn cyrraedd y gofynion byddai angen gofod dysgu ychwanegol, ymestyn y neuadd, gofod staff/paratoi, gofod adnoddau dysgu, mannau chwarae.
- Safle daearyddol gorau o safbwynt symudiad disgyblion a phellter o Dinas Mawddwy

- Cost datblygu – oddeutu £1.5m

Mae asesiad pellach o gryfderau, gwendidau, cyfleon a bygythiadau datblygu a gwella safle Brithdir ac Ieuan Gwynedd, ynghyd â sylwadau'r Panel lleol yn Atodiad 4.

5.5.2.5 Roedd barn y Panel ar leoliad yr Ysgol Ardal yn rhanedig. Roedd cynrychiolaeth ysgolion Brithdir ac Ieuan Gwynedd yn driw i safleoedd eu hysgolion presennol. Cadarnhawyd rhai o rinweddau a phroblemau'r safleoedd dan sylw.

5.5.2.6 Nodir rhai o rinweddau safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd o ran ei maint a chôst datblygu'r safle yn îs, ond nodwyd pryder ynglŷn a lleoliad daearyddol i'r ysgol o ran pellter i'r ail safle yn Dinas Mawddwy ac o ran hyfywdra'r lleoliad ddenu plant oherwydd ei safle daearyddol.

5.5.2.7 Ar y llaw arall, nodir rhai o rinweddau safle ysgol y Brithdir fel lleoliad daearyddol gwell o ran hyfywdra'r safle ac fel canolbwynt i ble mae nifer o blant yr ardal yn byw ac hefyd ei agosatrwydd at Dinas Mawddwy, nodwyd hefyd y cyswllt â'r ddarpariaeth feithrin ym mhentref Brithdir. Nodwyd peth pryder am gyflwr y ffyrdd i'r safle ym Mrithdir gan rai o aelodau'r panel.

5.5.2.8 Mae'r broses o drafod â pherchnogion tir a chasglu gwybodaeth dechnegol ar brif leoliad safle'r Ysgol Ardal yn parhau a bydd angen cyfnod i ganiatáu amser ar gyfer y materion technegol hyn. O ran gwybodaeth dechnegol sydd i law rhaid nodi mai safle Ieuan Gwynedd, Rhydymain fyddai'r opsiwn rhataf a lleiaf cymhleth i'w datblygu. Dylid bod yn glir fod y gallu i ymestyn adeiladau Brithdir yn llwyr ddibynnol ar allu prynu tir cyfagos. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi eu cynnal â'r tirfeiddianwr. Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda Awdurdod cynllunio y Parc Cenedlaethol. Nid oes gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r r'un o'r dau safle, ond mae'r gallu i sicrhau caniatâd cynllunio ym Mrithdir yn anoddach nag yw yn Rhydymain.

5.5.2.9 Bydd argymhelliad i'r Cyngor i'r perwyl hwn i ddirprwyo'r penderfyniad o ran lleoliad i'r Bwrdd (ar gyfer cyfarfod y Bwrdd 20fed o Fedi 2011) er mwyn sicrhau amser i'r materion technegol hyn, a sicrhau fod modd symud â'r ymgynghoriad statudol yn unol â'r amserlen a nodir yn Rhan 9 o'r adroddiad yn unol â'r dymuniad yn lleol a barn y Pwyllgor Craffu.

## 5.6 Oblygiadau'r cynnig o sefydlu Ysgol Ardal

5.6.1 Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd dwy ysgol yn cau a newid rhagnodedig i ddwy ysgol arall.

5.6.2 <u>Ystyriaethau cau Ysgol Llanfachreth </u>(adweinir hefyd fel Ysgol Machreth)<u>:</u>

5.6.2.1 Rhoddwyd ystyriaeth i safle presennol ysgol Llanfachreth fel opsiwn ar gyfer yr Ysgol Ardal, ond oherwydd y rhesymau canlynol penderfynwyd peidio ei argymell fel safle iw ystyried ymhellach:

- Safle Llanfachreth yw'r un pellaf o ran amser o Ysgol Dinas Mawddwy (25mun).

- Nifer fychan o ddisgyblion sydd yn byw yn nalgylch yr ysgol – gyda dim ond 7 disgybl yn byw o fewn eu dalgylch naturiol, Mae gan yr ysgol y ganran fwyaf o ddisgyblion all-ddalgylch (59% - 13 disgybl). Byddai lleoli'r Ysgol Ardal yn golygu'r symudiad mwyaf o ran niferoedd plant.

- Mae 73% o ddisgyblion (16) Ysgol Llanfachreth yn byw yn nes at ysgol arall.

- Yn ddaearyddol, y safle hwn yw'r lleiaf ffafriol o ran ble mae plant yn byw.

5.6.2.2 O ganlyniad i'r cynnig, byddai ysgol Llanfachreth yn cau, ac fel nodwyd eisoes byddai hyn effeithio'r ddarpariaeth addysg Eglwysig yn yr ardal. Yn unol â chanllawiau'r Cynulliad bydd yn rhaid i'r Cyngor drafod ac ystyried y mater yma ymhellach gan asesu effaith argymell dileu darpariaeth grefyddol yn yr ardal. Bydd gwaith pellach yn parhau ar yr elfen yma dros yr wythnosau nesaf.

5.6.2.3 Mae'r adroddiadau effaith cymunedol ac economaidd yn nodi pryderon ynglŷn a chau ysgol Llanfachreth ar y gymuned yno, a'r safle arall fydd yn gweld eu hysgol yn cau (h.y. unai Brithdir neu Rhydymain). Bydd rhaid sicrhau fod ystyriaeth i'r mesurau argymhellir yn yr asesiadau hynny i sicrhau fod yr effaith ar y cymunedau hynny yn cael eu lliniaru.

5.6.3 <u>Endid un Ysgol, ond dau safle:</u>

5.6.3.1 Er mwyn sefydlu'r Ysgol Ardal ystyriwyd y modd gorau o wneud hynny yn gyfreithiol ac yn gyfansoddiadol. Argymhellir y bydd rhaid cau yr ysgolion mewn golwg (Llanfachreth, Dinas Mawddwy, Brithdir ac Ieuan Gwynedd), ac ail agor safle Dinas Mawddwy ac unai safle ysgol Brithdir neu Ieuan Gwynedd er mwyn sefydlu'r Ysgol Ardal Aml-Safle.

5.6.3.2 Eglurwyd eisoes oblygiadau sefydlu endid un ysgol, o ran;

- Arweinyddiaeth (un Pennaeth),
- Rheolaeth lywodraethol (un corff llywodraethol) a
- Cyllidebol (un gyllideb).

5.6.3.3 O greu'r Ysgol Ardal Aml-Safle bydd angen sefydlu corff llywodraethu, cyfansoddiad yr ysgol a phenodi staff. Mater i Gorff Llywodraethu'r Ysgol Ardal fydd y strwythur staffio, fodd bynnag, awgryma'r Cyngor y dylai'r Ysgol Ardal geisio clustnodi'r swyddi sy'n deillio o weithredu'r drefn newydd ar gyfer athrawon sydd yn gweithio o fewn y 4 ysgol yn y lle cyntaf, ac yna i ysgolion eraill cylch Dolgellau.

5.6.3.4 Bydd y gyllideb yn seiliedig ar niferoedd disgyblion fydd yn mynychu'r ysgol yn unol â'r fformiwla cyllido ysgolion. Bydd Ysgol Dinas Mawddwy yn dod yn rhan o'r Ysgol Ardal gyda lwfans aml-safle fel modd o gynnal yr Ysgol Ardal ar ddwy safle.

5.6.4 <u>Dewis lleoliad un safle'r Ysgol</u>: Yn ddibynnol ar y dewis o leoliad ar gyfer prif safle'r ysgol; sef safle presennol ysgol Brithdir neu safle Ieuan Gwynedd, Rhydymain, bydd hyn yn golygu y bydd y nail ysgol neu'r llall yn cau, a safle'r ysgol ddewisir yn cael ei hymestyn a'i gwella. Mae'r opsiynau hyn wedi cael eu hasesu o ran ffactorau; pellter

teithio, hygyrchedd, effaith ar reolaeth yr ysgol, argaeledd tir, cost, oblygiadau cynllunio ac hyfywdra'r ysgol i'r dyfodol. Mae asesiad llawn o'r opsiynau hyn iw gweld yn Atodiad 4. Fel nodwyd eisoes, mae gwaith pellach iw wneud ar faterion technegol, felly bydd angen caniatáu amser i hynny ddigwydd.

## 5.7 I gloi

5.7.1 Wrth ystyried yr holl ffactorau, argymhellir felly sefydlu Ysgol Ardal Aml-Safle yn rhan yma o ddalgylch Dolgellau. Byddai'r argymhelliad yn golygu cau dwy o'r bedair ysgol, ond yn sicrhau fod un safle yn cael ei hymestyn a'i huwchraddio i dderbyn plant tair ysgol. Byddai Ysgol Llanfachreth yn cau, a byddai hyn yn golygu diddymu darpariaeth Eglwysig yn y rhan hon o'r ardal. Byddai safle Dinas Mawddwy yn parhau fel ail safle o'r Ysgol Ardal yma.

5.7.2 Fel rhan o gamau i liniaru unrhyw effaith o gau ysgol mewn ardal – bydd y Cyngor yn gofyn i'w Swyddogion Adfywio gefnogi'r gymuned wrth ystyried unrhyw ôl-ddefnydd o dir rhyddheir o ganlyniad i'r ad-drefnu os oes dymuniad yn lleol.

5.7.3 Bydd angen cyfnod o amser dros yr haf i roi sylw pellach i faterion technegol yn ymwneud â lleoliad y safle. Argymhelliad i'r Cyngor Llawn i ddirprwyo penderfyniad ar leoliad un o safleoedd yr ysgol i'r Bwrdd. Rhagwelir y bydd modd adrodd ar y mater ym fuan yn yr Hydref gan ganiatáu i'r broses o ymgynghori statudol fynd yn ei blaen yn unol â'r amserlen.

# 6. Y SEFYLLFA YNG NGORLLEWIN Y DALGYLCH

## 6.1 Cyd-destun

6.1.1 Yr hyn olygir wrth ardal orllewinol o'r dalgylch yw:

- Ysgol Ganllwyd,
- Ysgol Llanelltyd,
- Ysgol Clogau ac
- Ysgol Friog

6.1.2 Mae trafodaeth ynglŷn a gorllewin y dalgylch wedi ei oedi am y tro am y rhesymau canlynol:

- Mae gwaith pellach angen ei wneud o ran edrych ar bosibiliadau datblygu safleodd a chyplysu hynny gyda modelau o ysgolion ar gyfer y dyfodol.
- Oherwydd sefyllfa fregus iawn yn yr ochr dwyreiniol mae'n rhaid blaenoriaethu ymateb yn yr ardal honno ar fyrder
- Byddai cyhoeddi opsiynau posib nawr yn yr ardal yma yn achosi mwy o bryder ac yn arwain o bosib i rieni symud eu plant i ysgolion gwahanol
- Diffyg cynhwysedd er mwyn cyflawni'r holl waith sydd ynghlwm wrth broses statudol o fewn cyfyngiadau'r cylch democrataidd. Rhaid i'r drafodaeth ddisgyn o fewn y cylch democrataidd hwn er mwyn medru cwblhau y broses statudol, er mwyn bwydo i'r cylch democrataidd nesaf wedyn cyn cyfyngiadau purdah o ganlyniadau i etholiadau llywodraeth leol.

6.1.3 Teg yw nodi fod cynrychiolaeth o'r Panel Adolygu lleol wedi nodi siom nad oedd modd cael argymhelliad cynhwysfawr ar gyfer y dalgylch cyfan yr un amser, a nodwyd pryderon ynglŷn a hynny. Ar y llaw arall, nodwyd gan gynrychiolaeth o'r Panel fod sefyllfa fregus mewn rhan arall o'r dalgylch sydd angen ei blaenoriaeth. Nodwyd wrth y Panel y byddai'r rhan orllewinol yn derbyn blaenoriaeth yn rhan nesaf o'r cynllun ad-drefnu.

## 6.2 Camau nesaf yng ngorllewin y dalgylch

6.2.1 Bydd y gwaith ar ochr gorllewinol y dalgylch yn cael ei osod fel blaenoriaeth o ran y broses ad-drefnu ysgolion.

6.2.2 Yn y cyfamser bydd y gwaith o ymchwilio i safleoedd posib a gwaith cefndirol arall yn yr ardal hon yn parhau.

# 7. GWYBODAETH AM Y CYNNIG AR GYFER TREF DOLGELLAU

## 7.1.1 Y Cynnig ar gyfer tref Dolgellau:

Yr argymhelliad ar gyfer tref Dolgellau yw:

Sefydlu Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes Aml-Safle ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed drwy unai gau y ddwy ysgol bresennol, neu ffurfio sefydliad ffederal.

7.1.2 Trafodwyd opsiynau i'r modd y gellid buddsoddi i wireddu'r argymhelliad;

i. Gellid sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes aml-safle heb ddim buddsoddiad cyfalaf o gwbwl.

ii. Gellid gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried buddsoddi oddeutu £1.95miliwn i wneud gwelliannau ar gyfer safle presennol yr ysgol gynradd fel bod modd cael yr adeiladau dysgu ar un safle ac adeiladu darpariaeth newydd yn rhan o'r safle,

iii. Gofyn i Gyngor Gwynedd wneud cais oleiaf £4.5miliwn am arian cyfalaf i Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar hugain i ddatblygu darpariaeth ar safle ysgol Y Gader ar gyfer Cyfnod Allweddol 2,

7.1.3 Mae'r dewisiadau hyn yn cael eu pwyso a mesur ymhellach isod, ac wedi derbyn barn y Panel Adolygu Lleol a'r Pwyllgor Craffu.

## 7.2 Gwybodaeth ychwanegol am y cynnig - Pam argymell Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes yn nhref Dolgellau?

7.2.1 Yn ystod trafodaethau ad-drefnu yn y Sir, mae'r model gydol oes wedi datblygu fel opsiwn posib mewn rhai sefyllfaoedd. Yn adolygiad o weithrediad Strategaeth Ad-drefnu nodir ei bod wedi amlygu wrth weithredu'r strategaeth nad oedd modd peidio cynnwys ysgol uwchradd y dalgylch yn y trafodaethau wrth ystyried cynigion ar gyfer addysg gynradd. Ategir hyn gan ddogfen strategol "Tuag at 2025", sy'n datgan yn glir bod rhaid i'r drefn bresennol newid:
"*mae hi'n allweddol bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddefnyddio adnoddau yn y*

*modd gorau posibl o fewn y gyfundrefn addysg a hyfforddiant - yn adnoddau dynol, technegol, adeiladol neu ariannol - a hynny er lles plant a phobl ifanc*".

7.2.2 Yn ystod trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch Y Gader, mynegwyd dyhead cyffredinol i edrych ar y model hwn fel opsiwn. Gwelwyd nifer o rinweddau y model. Aseswyd yr opsiwn ar amryw o ffyrdd yn cynnwys ystyriaeth datblygu darpariaeth ar gyfer holl blant a dalgylch o 3 i 16 mlwydd oed ar un campws ac hefyd ystyried sefydlu'r model am gampws aml-safle.

7.2.3 Cafwyd cydnabyddiaeth yn y Panel Adolygu y byddai creu model Gydol Oes yn fodd o gryfhau hyfywdra'r sector Uwchradd yn y Dalgylch, ond hefyd yn cynnig cyfleon addysgol ymarferol a strategol i sector cynradd y dref a'r dalgylch yn ehangach. Nodwyd fod newid yn niferoedd ysgol Y Gader yn peru pryder gyda'r rhagolygon yn nodi lleihad oddeutu 13% yn y blynyddoedd nesaf.

7.2.4 Yn ystod y trafodaethau yn ogystal, nodwyd pryderon ynglŷn a safle ysgol gynradd Dolgellau. Nodwyd fod yr ysgol wedi ei rhannu a bod hynny yn golygu fod rhai darpariaethau yn cael eu dyblygu a bod rhai problemau rheolaethol oherwydd hyn yn ogystal.

7.2.5 Mae tystiolaeth o rai ardaloedd o Brydain fod sefydlu trefniadaeth gydol oes yn fodd o gynnal ffocws cynaliadwy i gymunedau gwledig. Mae'n fodd o warchod darpariaeth wledig yn wyneb costau uchel cynnal ysgolion bach, trwy gydlynu rheolaeth ysgolion.

7.2.6 Gall cymuned ddysgu gydol oes roi manteision ***cwricwlaidd*** trwy greu ethos a disgwyliadau cyffredin i ddisgyblion, staff a rhieni trwy gynnal hyblygrwydd wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm. Mae ymchwil yn dangos bod y cyfnod trosiannol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn heriol i blant ac mae cyrhaeddiad yn gyffredinol yn gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn. O greu perthynas agosach rhwng y sector cynradd ac uwchradd, gellid lleihau ansicrwydd y cyfnod i blant.

7.2.7 Ceir cyfle i ***fanteisio ar arbenigeddau staff*** ar draws yr oedrannau dysgu, gan hefyd gynnig cyfle i staff ddysgu wrth eu cyfoedion, a hyn er lles addysg disgyblion.

7.2.8 Gellid ***cefnogi lles disgyblion*** trwy leihau'r pryder wrth symud o gyfundrefn gyfarwydd y sector cynradd i'r sector uwchradd. Sefydlir gweithdrefn i gynnal disgyblion sydd yn addas i oedran ac anghenion disgyblion gan sefydlu perthynas hir dymor rhwng rhieni a staff.

7.2.9 Mae tystiolaeth hefyd yn dangos fod ***perthynas agosach rhwng yr ysgol a rhieni****,* ac felly bod cymuned agosach yn cael ei sefydlu. Nodwyd mewn gwaith ymchwil yn yr Alban fod *"...y berthynas gref gyda rhieni [yn un] sydd ai gwreiddiau yn aml mewn cysylltiadau a sefydlwyd yn ystod blynyddoedd cynnar addysg plant*" (Learning Together HMIe (Alban), 2010). Gall y fath berthynas ond fod yn beth iach i'r disgybl, ac yn wir, i'r gymuned yn ehangach.

7.2.10 Mae profiadau ardaloedd eraill yn dangos fod cyfle i ***gefnogi teuluoedd*** trwy ddarparu gwasanaethau integredig i gynnwys gwasanaethau iechyd, gofal plant, hyfforddiant i oedolion, ac ystod o wasanaethau eraill.

7.2.11 Gellid datblygu ***polisi iaith cynhwysfawr*** trwy'r sectorau cynradd ac uwchradd gan gynnwys gweithgareddau cymunedol ac addysg i oedolion. Mae hyn yn arbennig o wir yn Nolgellau o ystyried canlyniadau'r asesiad iaith gynhaliwyd ar y model hwn.

7.2.12 O ran ***rheolaeth yr ysgol***, ceir cyfleoedd i uno cyrff llywodraethol a chyllidebau. Gellid gwneud hyn yn ffurfiol, gan gynnig sgôp i wneud arbedion rheolaethol.

## 7.3 Oblygiadau'r cynnig o sefydlu Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes

7.3.1 Byddai'r opsiwn yma yn golygu unai cau ysgol gynradd Dolgellau ac ysgol Uwchradd Y Gader gan eu hail agor fel Cymuned Ddysgu Gydol Oes neu sefydlu model ffederal. Ers cychwyn ar y daith drwy'r cylch pwyllgorau, nodir fod modd arall o wireddu'r cynnig – drwy i'r Cyngor gydweithio efo cyrff llywodraethu a ffurfio sefydliad ffederal. Drwy naill ffordd, neu'r llall – gellid gwireddu'r model o Gymuned Ddysgu Gydol Oes.

### 7.3.2 Nodweddion y model:

7.3.2.1 Nodir isod rhai prif argymhellion ar gyfer y model gydol oes. Nodir mai argymhellion ydyw rhain ac y byddai materion rheolaethol yn nwylo'r ysgol a'r llywodraethwyr yn y pendraw.

- Bydd y Gymuned Ddysgu Gydol Oes yn cynnwys darpariaeth feithrin, cynradd ac uwchradd.
- Un corff llywodraethol ar gyfer y Gymuned Ddysgu gydol oes, neu gorff cysgodol mewn model ffederal.
- Un arweinydd ar gyfer y sefydliad cyfan, gyda phenaethiaid sector cynorthwyol i gymryd cyfrifoldeb dros y sectorau cynradd ac uwchradd ac unrhyw gyfleusterau eraill ddarperir.
- Yn yr ail reng o reolaeth gellid sefydlu trefn o gyd gysylltwyr gyda chyfrifoldeb traws sefydliad ar agweddau megis Gofal Bugeiliol, Asesu neu Weithgareddau Cymunedol.
- Bydd yr ysgol yn cael ei hariannu fel un uned.

### 7.3.3 Canolbwynt addysg yn y dalgylch

7.3.3.1 Bydd disgwyl i'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes gwmpasu'r dalgylch yn gyfan drwy gydweithio'n agos gydag holl ysgolion cynradd y dalgylch cyfan er mwyn iddynt fanteisio ar ddatblygiadau yn y dref ac arbenigeddau'r holl staff. Wrth gwrs, mae opsiynau ar hyn o bryd ynglŷn â gwelliannau cysylltiedig â'r cynnig, ac mae i'r opsiynau hynny eu nodweddion ag oblygiadau.

### 7.3.4 Statws gyfreithiol a dulliau sefydlu'r Gymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes

7.3.4.1 Yn ôl y gyfraith, mae categorïau penodol o ysgolion, rhaid nodi y byddai angen rhoi ystyriaeth i'r mecanwaith o sefydlu Gymuned Ddysgu Gydol Oes.

7.3.4.2 Pe byddai'r ddwy ysgol yn cael cau, ac yn cael eu hail agor a'u cyfuno, yna byddai yn rhaid gosod statws gyfreithiol ar yr ysgol fel un endid. Ar y llaw arall, byddai modd cadw statws gyfreithiol presennol y ddwy ysgol pe byddent yn ffurfio model ffederal.

7.3.4.3 Ar hyn o bryd statws ysgol gynradd Dolgellau yw Ysgol Eglwys yng Nghymru (Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth) a statws Ysgol Y Gader ydyw Ysgol Uwchradd Gymunedol. Mae dau opsiwn o ran y statws:

- Rhoi statws Gymuned, NEU
- Rhoi Statws Eglwysig
  - Statws Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth neu
  - Ysgol Wirfoddol Gymorthedig

Mae nodweddion gwahanol i'r opsiynau hyn.

7.3.4.4 <u>Nodweddion Statws Ysgol Gymuned</u>:

7.3.4.5 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd Gwynedd statws Gymuned, ac yn wir mae pob un o'i ysgolion uwchradd â'r statws hwn. Yn gryno, nodweddion ysgol Gymuned yw'r canlynol yw fod yr Awdurdod Addysg Lleol yn :

- Berchennog ar dir ac adeiladau'r ysgol, ond fod y corff llywodraethol yn gyfrifol am redeg yr ysgol,
- Cyllido'r ysgol,
- Cyflogi'r staff
- Darparu gwasanaethau ategol, er enghraifft – gwasanaethau anghenion arbennig, seicolegol ayb
- Gweithredu'r polisi mynediad.
- Yn ogystal, dilynir y cwricwlwm cenedlaethol

7.3.4.6 <u>Nodweddion Statws Ysgol Eglwysig</u>:

Mae dau fath o Ysgol Eglwysig (neu Ysgol Wirfoddol):

- Statws Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth neu
- Ysgol Wirfoddol Gymorthedig

7.3.4.7 Dyma rai o nodweddion y statws Eglwysig:

- Yr Awdurdod Lleol sy'n rheoli mynediad ysgolion a chyflogi'r staff a darparu gwasanaethau ategol.
- Mae gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar gorff llywodraethol yr ysgol
- Fel arfer, mae'r tir neu ran o'r tir ym mherchnogaeth y sefydliad crefyddol neu elusen
- Ar lefel ymarferol mae'r ethos Gristnogol yn cael ei hadlewyrchu ym mywyd yr ysgol ac ar lefel gymunedol
- Y Cyngor yw'r awdurdod sydd yn rheoli mynediad

7.3.4.8 <u>Ystyried y gwahanol statws</u>:

7.3.4.9 Pe byddai'r sefydliad gydol oes yn cael statws gyfreithiol 'gymuned' byddai'r statws 'Eglwysig' yn cael ei ddiddymu. Golygai hyn, o ystyried yr argymhelliad i gau Ysgol Llanfachreth yn ogystal, na fyddai darpariaeth Eglwysig yn nalgylch Y Gader. Mae

ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn a dylanwad y ffactor hwn yn ystyriaethau rhieni wrth ddewis ysgol, ond mae asesiad wrthi yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

7.3.4.10 Pe byddai statws Eglwysig yn cael ei rhoi ar y Sefydliad Gydol Oes yn Nolgellau, golygai hyn mai sector Uwchradd Y Gader fyddai'r unig un yng Ngwynedd gyda'r statws. Mae ysgol uwchradd Eglwysig ar y cyd yn Wrecsam, ac mae tair ysgol uwchradd gan yr Eglwys yng Nghymru yn Ne Cymru. Mae gan yr Eglwys Babyddol ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych ac yn Sir y Fflint.

7.3.4.11 Fel arfer, statws gymuned roddir ar Sefydliadau Gydol Oes, ond mae enghreifftiau o Ysgolion Gydol Oes Eglwysig yn Lloegr, ond pe byddai'r statws yma yn Nolgellau, byddai'r cyntaf yng Nghymru.

7.3.4.12 <u>Opsiwn Amgen</u>:

7.3.4.13 Opsiwn arall fyddai sefydlu model ffederal rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd. Wrth sefydlu model ffederal, byddai modd cadw'r ddau statws cyfreithiol presennol. Nodir mai'r gwahaniaeth ydyw yn y mecanwaith o wireddu'r Gymuned Ddysgu. Gyda'r opsiwn hwn, byddai angen i'r Cyngor gydweithio efo cyrff llywodraethu y ddwy ysgol, yn hytrach na mynd drwy broses statudol.

7.3.4.14 <u>Casgliadau:</u>

7.3.4.15 Er mwyn asesu'r mater yma argymhellir cynnal gwaith pellach yn yr wythnosau nesaf er mwyn cael barn ar fater o sefydlu'r model Gydol Oes argymhellir a chynnal trafodaethau pellach gyda chynrychiolaeth yr Eglwys yng Nghymru o Esgobaeth Bangor ynglŷn a'r mater.

7.3.4.16 Argymhellir i'r Cyngor Llawn ddirprwyo'r mater o benderfyniad ar y modd gorau o sefydlu'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes i'r Bwrdd. Rhagwelir y bydd modd adrodd ar y mater yn fuan yn yr Hydref.

### 7.3.5 Asesiadau o Effaith Ieithyddol a Chymunedol

7.3.5.1 Yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yng Nghylchlythyr 021/2009, comisiynwyd asesiadau o effaith ieithyddol a chymunedol gyda'r model hwn – yn ogystal a rhai eraill.

7.3.5.2 Mae'r ardrawiad iaith yn nodi y byddai'r model yn cael effaith negyddol. Mae'r Adroddiad Asesiad Ieithyddol yn nodi'r cefndir y tu ôl i'r canlyniadau hyn gan egluro fod y sefyllfa bresennol i gyfrif am ganlyniad yr ardrawiad, a bod y model mewn gwirionedd yn fodd o gynnal y status quo.

7.3.5.3 Noda'r asesiad fod canran disgyblion ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn uwch nac o gartrefi Cymraeg, yn yr ysgol gynradd ac uwchradd ar hyn o bryd. Nodir fod defnydd cymdeithasol ac academaidd o'r Saesneg. Nodir defnydd helaeth o'r Saesneg yn gymdeithasol yn y Cynradd ac i raddau amrywiol yn yr Uwchradd. Mae oddeutu traean o ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf Uwchradd yn dewis dilyn cyrsiau TGAU trwy'r Saesneg. Yn ogystal, mae canran o rieni disgyblion Uwchradd yn gwneud cais i'w plant ddilyn pynciau trwy'r Saesneg. Noda canfyddiadau'r asesiad fod hyfedredd dwyieithog

disgyblion Cynradd yn dda er bod carfanau ieithyddol disgyblion yn amrywiol – nodir mai mater o ddiffyg defnydd o'r Gymraeg ydyw. O ran sefyllfa'r Gymraeg yn y ward/ cymuned, drwy'r asesiad noda'r ddwy ysgol mai 'gweddol' a colli ei thir y mae'r Gymraeg.

7.3.5.4 Gan fod yr ardrawiad yn nodi fod y model argymhellir yn fodd o gynnal sefyllfa sydd yn bryderus o ran yr iaith, nodir nifer o fesurau i liniaru'r effaith, ac o bosib yn cynnig cyfleon i herio sefyllfa sydd yn bodoli ar hyn o bryd er gwell, drwy sefydlu'r model Gydol Oes.

- Bugeiliaeth a rheolaeth drwyadl gan y Gymuned Ddysgu Gydol Oes er mwyn cynnal ac atgyfnerthu'r sefyllfa gyfredol.
- Annog darpariaeth er mwyn trwytho plant cyn oed ysgol yn y Gymraeg.
- Mabwysiadu polisi ysgol lle byddai staff dysgu ac ategol yn dechrau a chynnal sgyrsiau'n Gymraeg â disgyblion er mwyn gosod a chynnal naws Gymreig a meithrin defnydd beunyddiol o'r iaith ymhlith disgyblion.
- Cynllun Datblygu Ysgol a chynlluniau gwaith i alluogi athrawon i osod modelau iaith cadarnhaol i ddisgyblion yn y dosbarth.
- Cymorthyddion amser chwarae a cinio i dderbyn hyfforddiant ar ddulliau cymell defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn modd hwyliog a chadarnhaol.
- Mabwysiadu gemau buarth i'w cynnal trwy'r Gymraeg.
- Cynnal cyfleoedd hamdden a chwaraeon trwy'r Gymraeg

7.3.5.5 Un dimensiwn allweddol yw cymhareb cefndir ieithyddol disgyblion. Noda'r Asesiad Ieithyddol "…fod materion eraill megis graddfa llwyddiant staff dysgu, hyfedredd ac agweddau disgyblion a'u teuluoedd tuag at y Gymraeg a chefnogaeth cymunedol yn dylanwadu ar greu deilliannau sy'n hyrwyddo ac atgyfnerthu'r Gymraeg yn ysgolion dalgylch Y Gader". Nodir y gallai ad-drefnu addysg 6 o Ysgolion dalgylch Y Gader drwy'r model Gydol Oes a'r model Ysgol Ardal fod yn fodd o hyrwyddo'r iaith drwy godi'r gymhareb o ddisgyblion sydd yn siarad Cymraeg gartref.

7.3.5.6 Mae effaith cymunedol y model gydol oes yn llai niweidiol. Y rheswm am hyn ydyw fod y model yn parhau â'r sefyllfa bresennol o ran presenoldeb ar y ddwy safle arwahan.

## 7.4 Opsiynau ar gyfer gweithredu'r argymhelliad yn nhref Dolgellau

7.4.1 Yr argymhelliad yn nhref Dolgellau yw sefydlu Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes.

7.4.2 Gwnaed gwaith ymchwil sylweddol o ran opsiynau safleoedd ar ffurf amrywiaeth o'r model gydol oes. Wedi asesu nifer o safleoedd – 10 safle mewn manylder, daethpwyd i'r casgliad nad oedd modd cael un safle ar gyfer creu un campws dysgu gydol oes. Roedd hyn am resymau maint safleoedd, lleoliad o ran perygl llifogydd, problemau mynediad ac eraill.

7.4.3 Fel nodwyd eisoes, trafodwyd opsiynau i'r modd y gellid gweithredu ar yr argymhelliad;

i. Sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes aml-safle heb ddim buddsoddiad cyfalaf o gwbwl.

ii. Gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried buddsoddi oddeutu £1.95miliwn i wneud gwelliannau ar gyfer safle presennol yr ysgol gynradd fel bod modd cael yr adeiladau dysgu ar un safle ac adeiladu darpariaeth newydd yn rhan o'r safle,

iii. Gofyn i Gyngor Gwynedd wneud cais oleiaf £4.5miliwn am arian cyfalaf i Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar hugain i ddatblygu darpariaeth ar safle ysgol Y Gader ar gyfer Cyfnod Allweddol 2,

Nodir na rhagwelir y bydd arbedion refeniw sylweddol yn deillio o'r r'un o'r opsiynau hyn yn nhref Dolgellau.

7.4.4 i. <u>Sefydlu Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes aml-safle heb ddim buddsoddiad cyfalaf o gwbwl.</u>

7.4.4.1 Golygai'r opsiwn hwn y byddai Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes yn cael ei datblygu, ond na fyddai unrhyw welliannau cyfalaf tu hwnt i'r hyn sydd o fewn rhaglen fuddsoddi'r Cyngor. Gallesid mynd ymlaen gyda newid statws yr ysgol a newid ei ffurf arweinyddiaeth, llywodraethu, cyllidebol ac addysgol hyd yn oed gyda'r opsiwn hwn.

7.4.4.2 Cafwyd barn yn lleol fod angen sicrhau buddsoddiad ar gyfer addysg yn nhref Dolgellau er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Noda'r Strategaeth Ad-drefnu fod angen sicrhau darpariaeth gynaliadwy ac o safon dderbyniol ar ôl y broses ad-drefnu, ond nodir hefyd y cyfyngiadau o ran yr arian cyfalaf sydd ar gael.

7.4.5 ii. <u>Datblygu safle presennol Ysgol Gynradd Dolgellau fel bod modd cael yr adeiladau dysgu ar un safle.</u>

7.4.5.1 Yn ystod trafodaethau'r dalgylch amlygwyd pryderon ynglŷn a'r ffaith fod ysgol gynradd Dolgellau yn gweithredu ar ddau safle – safle y cyfnod sylfaen un ochr i'r ffordd a chyfnod allweddol 2 yr ochr arall. Nodir y diffygion canlynol:

- Safle wedi ei rannu yn ddwy
- Problemau traffig a pharcio
- Neuadd a ffreutur is-safonol
- Cyfleusterau is-safonol
- Diffyg gofod adnoddau dysgu
- Diffyg adnoddau staff

7.4.5.2 Fel rhan o'r opsiwn hwn byddai modd datblygu un o safleoedd yr ysgol gynradd i dderbyn holl oedrannau'r ysgol, a datblygu'r safle arall yn faes parcio a maes chwarae pwrpasol. Byddai rhan newydd yn cael ei adeiladu i yn cael y buddiannau canlynol:

- Cael yr ysgol i gyd ar un safle
- Gwelliannau i system drafnidiaeth a pharcio ger yr ysgol
- Mwy o ofod chwarae
- Neuadd a ffreutur newydd
- Toiledau newydd
- Gofod adnoddau dysgu
- Gofod adnoddau staff

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu fod modd rhesymoli rhai o'r darpariaethau caiff eu dyblygu ar hyn o bryd. Pe na byddai angen un rhan o safle ysgol gynradd Dolgellau, ni fyddai angen gwario'r swm o oddeutu £54,000 o anghenion ôl groniad cynnal a chadw, rhagofalon tân a gofynion addasrwydd sydd ar y safle.

7.4.5.3 Amcan gost datblygiad o'r fath fyddai oddeutu £1.95miliwn. Nodir y byddai modd gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried ariannu swm o'r fath o fewn ei strategaeth ariannol ac o fewn amserlen wedi ei gosod gan y Cyngor. Roedd cefnogaeth yn lleol i'r opsiwn hwn fel modd o wella sefyllfa sydd yn broblemus ar hyn o bryd, ac yn fodd o wella darpariaeth addysg. Atgyfnerthwyd y gefnogaeth honno yn y Pwyllgor Craffu pan drafodwyd y mater yno. Nodir fod trafodaethau a gwaith pellach yn cael ei wneud ar faterion perchnogaeth tir ar y safle.

7.4.6 iii. <u>Datblygu safle presennol ysgol Y Gader i dderbyn oedrannau Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Gynradd Dolgellau gan adael y Cyfnod Sylfaen ar safle presennol ysgol gynradd Dolgellau.</u>

7.4.6.1 Awgrym arall wnaethpwyd yn ystod y trafodaethau ydoedd edrych a fyddai modd datblygu safle presennol ysgol Y Gader i dderbyn Cyfnod Allweddol 2 sydd ar hyn o bryd ar safle'r Ysgol Gynradd Dolgellau yr ochr arall i'r dref.

7.4.6.2 Nodwedd y cynllun hwn fyddai medru lliniaru pryderon y cyfnod trosiannol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd all fod yn heriol i blant lle mae cyrhaeddiad yn gyffredinol yn gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn. Wrth gwrs gellid dadlau byddai'r symudiad hwn yn creu cyfnod trosiannol o'r newydd rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 a 2.

7.4.6.3 Byddai'r datblygiad hwn yn golygu datblygu adeilad o'r newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ar safle presennol Ysgol Y Gader. Byddai gwelliannau parcio yn rhan o'r cynllun yn ogystal.

7.4.6.4 Amcan gost y datblygiad hwn yw oleiaf £4.5 miliwn. Er mwyn cyllido'r swm yma, byddai yn rhaid gofyn i'r Cyngor wneud cais i'r Cynulliad am gyfraniad tuag at swm. Ni ellir fod yn bendant pryd y gellir gwneud hyn, na chwaith os fyddai cais o'r fath yn llwyddiannus. Nodir na fyddai modd cyflwyno cais tan oleiaf 2016/17 ac na fyddai adeilad felly yn barod tan oleiaf 2018 ar y cynharaf.

7.4.6.5 Gan na fyddai modd gwneud cais am arian am gyfnod, byddai rhaid oedi'r buddsoddiad a chydweithio gyda llywodraethwyr yr ysgol i lunio cais yn y dyfodol. Mae peth amwysedd oherwydd yr angen i oedi a bydd amgylchiadau yn newid yn y cyfamser – nid yn unig yn nhref Dolgellau, ond ar lefel Sirol, ac o bosib ar ofynion ceisiadau cyfalaf cenedlaethol.

7.4.6.6 Nid oedd cefnogaeth yn lleol i'r opsiwn hwn am nifer o resymau. Nodwyd pryderon ynglŷn ag amserlen y dull ariannu, yr awgrym o rannu'r cyfnodau dysgu yn yr oedran cynradd a phryderon ymarferol datblygu safle'r Gader.

### 7.4.7 Asesu'r opsiynau gweithredu

7.4.7.1 Mae'r ddau opsiwn o ran buddsoddiad wedi cael eu hasesu, Mae manylion yr asesiad yn Atodiad 4 gyda chryfderau a gwendidau a chyfleon a phroblemau ynghyd â barn llawn y Panel Adolygu Dalgylch yn cael eu nodi.

7.4.7.2 Roedd barn cryf yn y Panel Adolygu Dalgylch yn erbyn yr opsiwn o symud Cyfnod Allweddol 2 i safle'r Gader. Mynegwyd pryderon am yr angen i oedi cyn bidio am arian, yn ogystal, mynegwyd pryderon am fuddiannau'r opsiwn hwn a'r rhaniad fyddai yn cael ei greu rhwng oedrannau dysgu yr oedran cynradd. Roedd y Pwyllgor Craffu yn cydnabod ac yn cefnogi'r farn fynegwyd yn lleol. Adroddir ar farn fynegwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ar lafar.

7.4.7.3 Argymhellir y bydd angen gofyn i'r Cyngor ystyried buddsoddi i ddatblygu safle presennol Ysgol Gynradd Dolgellau i sicrhau'r gwelliannau nodwyd uchod.

**7.5 I Gloi**

7.5.1 Felly, yr argymhelliad ar gyfer ysgolion tref Dolgellau yw cau ysgol gynradd Dolgellau ac Ysgol Uwchradd Y Gader gan sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes Aml-Safle ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed. Golygai hyn y byddai gan yr ysgol un Pennaeth, un corff llywodraethu ac un gyllideb. Rhinweddau'r cynnig hwn ydyw creu canolbwynt addysgol i oedrannau 3 i 16 yn y dalgylch a chreu cyfleon ar gyfer cydweithio a rhannu arbenigeddau a sgiliau ar draws y dalgylch cyfan.

7.5.2 Argymhellir yn ogystal y bydd angen gofyn i'r Cyngor ystyried buddsoddi i ddatblygu safle presennol Ysgol Gynradd Dolgellau. Rhaid rhoi ystyriaeth pellach i statws gyfreithiol yr ysgol – gan ystyried a'i statws eglwysig, neu gymuned fyddai fwyaf addas. Argymhellir cynnal asesiad o'r sefyllfa yn yr wythnosau nesaf er mwyn cael barn ar fater o statws y Gymuned Ddysgu Gydol Oes a chynnal trafodaethau pellach gyda chynrychiolaeth yr Eglwys yng Nghymru

7.5.3 Argymhellir i'r Cyngor Llawn i ddirprwyo'r mater o benderfyniad ar y modd gorau o sefydlu'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes i'r Bwrdd er mwyn caniatáu cyfnod o waith pellach ar y mater. Rhagwelir y bydd modd adrodd ar y mater yn yr Hydref.

## 8. CRYNODEB O'R CYNIGION AR GYFER Y DALGYLCH

8.1 Wrth ddatblygu a thrafod opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Gader, argymhellir nad oes modd cynnig ateb ar gyfer y dalgylch cyfan ar hyn o bryd. Mae egwyddorion Strategaeth Ad-drefnu y Cyngor yn cydnabod *"bod graddfa, natur ac amserlen y newid am amrywio o ddalgylch i ddalgylch"*.

8.2 <u>Rhan ddwyreiniol o'r dalgylch</u>

8.2.1 Mae sefyllfa rhai o ysgolion yn nwyrain y dalgylch yn fregus, ond mae argymhelliad yn cael ei gynnig fel ateb tymor hir ar gyfer yr ardal benodol honno. Edrychwyd ar fodd o sicrhau darpariaeth addysg mewn ardal wledig yn rhan yma o'r dalgylch, ond hefyd edrychwyd ar fodd o sicrhau cynaladwyedd a chefnogaeth i safle sydd yn ddaearyddol ynysig ac sydd eisoes yn darparu addysg ar gyfer ardal eang. Bydd y cynnig yn creu sefydlogrwydd ac yn sicrhau dyfodol i'r Ysgol Ardal wledig ac yn galluogi cynllunio cymunedol i ddigwydd o gwmpas yr ysgol hynny.

8.2.2 Bydd y trefniant newydd yn sicrhau cyfle cyfartal i blant yr ardal dderbyn addysg mewn grwpiau o faint rhesymol ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ac i gyd-chwarae gyda chyfoedion yn fwy rheolaidd. Mae'r cynnig y rhoi'r cydbwysedd gorau rhwng darparu addysg effeithiol mewn sefydliadau effeithlon wrth gynnig dewis i rieni. Ni fydd unrhyw blentyn yn gorfod teithio mwy na 30 munud i'r ysgol gynradd ar ôl gweithredu'r cynigion.

8.2.3 Rhoddir mwy o sicrwydd staffio yn yr ardal a chyfle i athrawon rannu arbenigeddau amrywiol a chynnig yr arbenigedd hynny i nifer ehangach o ddisgyblion. Bydd dosbarthiadau yn cynnwys llai o ystod oedran ac felly'n hwyluso cynllunio ac addysgu gan yr athrawon.

8.2.4 Amcangyfrifir arbediad o £132,000 o weithredu'r cynnig.

8.2.5 Ystyriwyd opsiynau amgen ar gyfer ad-drefnu ysgolion y rhan yma o'r dalgylch ond bernir fod y cynigion sydd gerbron yn cynnig y cydbwysedd gorau rhwng cynnal safonau addysg, sicrhau ysgolion sydd yn hyfyw, lleihau anawsterau arweinyddiaeth, cynnal hygyrchedd at ysgolion.

8.2.6 Bydd angen cyfnod o amser dros yr haf i roi sylw pellach i faterion technegol yn ymwneud â lleoliad y safle. Rhagwelir y bydd modd adrodd ar y mater i'r Bwrdd yn fuan yn yr Hydref gan ganiatáu i'r broses o ymgynghori statudol fynd yn ei blaen yn unol â'r amserlen. Gellid adrodd yn yr un modd ar effaith y cynigion yn y dalgylch ar ddewis i ddarpariaeth grefyddol wedi i waith pellach gael ei wneud.

8.3 Tref Dolgellau

8.3.1 Yn nhref Dolgellau mae'r argymhelliad i ddatblygu'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes yn gyfle i sicrhau canolbwynt addysgol ar gyfer holl ddalgylch Y Gader. Mae'n hanfodol i bob ysgol yn y dalgylch - yn nhref Dolgellau a'r ardal wledig o'i chwmpas gael cyfle i fanteisio ar rinweddau'r model hwn.

8.3.2 Ystyriwyd opsiynau ar gyfer gweithredu'r model Gydol Oes. Nodwyd fod un o'r opsiynau hyn yn golygu y byddai yn rhaid gofyn i'r Cyngor wneud cais am yr arian i'r Cynulliad – olygai y byddai oedi am rai blynyddoedd cyn y gellir gwneud hynny; tra ar y llaw arall byddai modd gofyn i'r Cyngor ystyried y cais i ariannu'r opsiwn arall a gosod amserlen ei hun. Cafwyd barn leol glir ynglŷn a pha un a ffafriwyd, ac ategwyd hynny yn y Pwyllgor Craffu. Argymhellir y bydd angen gofyn i'r Cyngor ystyried buddsoddi i ddatblygu safle presennol Ysgol Gynradd Dolgellau.

8.3.3 Nodir fod angen cynnal gwaith pellach ar fater statws y sefydliad gydol oes a chynnal trafodaethau pellach er mwyn caniatáu i'r Bwrdd ystyried a phenderfynu ar y modd gorau o sefydlu'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes i adlewyrchu canlyniadau'r gwaith pellach hwn.

8.4 Rhan Orllewinol o'r dalgylch

8.4.1 Fel nodwyd eisoes, rhaid gwneud gwaith pellach yn rhan arall o'r dalgylch er mwyn ceisio cael ateb cadarn ar gyfer darpariaeth addysg gynaliadwy i'r dyfodol. Bydd y drafodaeth yn yr ardal yma yn cael ei blaenoriaethu fel rhan nesaf o'r cynllun ad-drefnu.

## 9 CAMAU NESAF

9.1 Bwriedir cyflwyno argymhellion o ran ardal ddwyreiniol y dalgylch a thref Dolgellau i sylw'r Cyngor Llawn (14 Gorffennaf 2011).

9.2 Os cymeradwyir y bwriad gan y Cyngor, bydd yn ofynnol cynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion ynglŷn â phob ysgol unigol sy'n wynebu cau neu newid statws, a hynny yn unol â gofynion statudol a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

9.3 Bydd y cyfnod o ymgynghori statudol yn cynnwys:

- Trafodaethau cyson gydag ysgolion wrth baratoi dogfen ymgynghorol statudol
- Cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol statudol yn Medi/ Hydref
- Cyfarfodydd ffurfiol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni'r ysgolion i drafod y ddogfen ymgynghorol statudol ym mis Medi/ Hydref
- Cyfnod o ddim llai na 4 wythnos ar gyfer derbyn sylwadau ac ymatebion ysgrifenedig i'r ddogfen ymgynghorol statudol
- Ar ddiwedd y cyfnod o ymgynghori statudol, anelir i ddarparu adroddiad i sylw'r Cyngor cyn diwedd y flwyddyn yn crynhoi'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd â sylwadau pellach. Rhoddir cyfle wedyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid bwrw ymlaen gyda'r broses o gau neu newid statws ysgolion.
- Os bydd penderfyniad i fwrw ymlaen, cyhoeddir rhybuddion statudol fesul ysgol yn nodi'r bwriadau ar gyfer yr ysgol honno yn glir. Cylchredir y rhybudd statudol i'r ysgolion penodol a sefydliadau perthnasol eraill, gosodir copïau ohono mewn mannau cyhoeddus yn yr ardal ac ar wefan y Cyngor. Rhoddir dim llai na 1 mis ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol i'r rhybudd statudol.
- Ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno rhybuddion statudol, daw'r mater yn ôl gerbron Bwrdd y Cyngor i gadarnhau'r bwriad. Os bydd y Bwrdd yn penderfynu bwrw ymlaen gyda'r cynnig dan sylw ac nad oes gwrthwynebiadau ffurfiol wedi dod i law, gellir cadarnhau'r penderfyniad. Os oes gwrthwynebiadau ffurfiol wedi'u derbyn, trosglwyddir y mater i'r Gweinidog Addysg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 10 ARGYMHELLIAD

10.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad ar leoliad arfaethedig yr ysgol ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar y bwriad o sefydlu Ysgol Gymuned Ardal aml-safle 3 – 11 oed gyda un safle'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy, a'r safle arall unai ar leoliad presennol Ysgol Brithdir, neu Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain i agor 1 Medi 2013.

10.2 Er sefydlu yr Ysgol Ardal arfaethedig ymgymryd a phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar gau Ysgolion Llanfachraeth, Dinas Mawddwy, Brithdir a Ysgol Ieuan Gwynedd ar 31 Awst 2013.

10.3 Argymhelliad i'r Cyngor ddirprwyo, i Fwrdd y Cyngor, y penderfyniad ar leoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig ar gyfer ymgynghori unai ar safle bresennol Ysgol Brithdir neu ar safle bresennol Ieuan Gwynedd.

10.4 Argymhellir cefnogi ar gyfer ymgynghori yr egwyddor o sefydlu Gymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes aml-safle 3 i 16 oed yn nhref Dolgellau i agor ar 1 Medi 2013.

10.5 Argymhelliad i'r Cyngor ddirprwyo y penderfyniad ar statws cyfreithiol y Gymuned (Ysgol) Ddysgu Gydol Oes 3 – 16 oed arfaethedig i Fwrdd y Cyngor er mwyn caniatáu ymgymryd a gwaith pellach gan gynnwys ystyried yr opsiwn o greu Ysgol Ffederal ynghyd a sefydlu y drefn ymgynghori statudol briodol ar gyfer symud y broses ymlaen.

---

A. Barn yr Aelod Lleol

Barn Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr

"Fel sydd yn amlwg o'r adroddiad, bu gwaith manwl iawn wrth baratoi'r cynigion hyn, sydd bellach wedi derbyn cefnogaeth diwrthwynebiad yn y Pwyllgor Craffu. Mae'r adroddiad yn ymhelaethu ar yr ystyriaethau ariannol sydd ynghlwm a'r penderfyniad ac mae'r Pennaeth Cyllid wedi tynnu sylw hynny yn ei sylwadau."

2. Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun arweiniad cyfreithiol. Rhaid nodi fod rhai materion allweddol ynglŷn a statws cyfreithiol yr Ysgol Gydol oes ynghyd ac argaeledd tir a rheolaeth safleoedd angen ystyriaeth pellach a datrusaid cyn y gellir symud ymlaen i'r ymgynghoriad statudol ar y cynigion.

3. Prif Swyddog Cyllid

"Mae cynigion y Gweithgor perthnasol sydd gerbron yn rhannau 5 a 7 o'r adroddiad yn dystiolaeth o waith trylwyr gan aelodau etholedig, penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr, swyddogion, ac eraill wrth geisio symud ymlaen yn briodol gydag adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd yn nalgylch Ysgol y Gader. Cadarnhaf y bu mewnbwn addas gan swyddogion Cyllid i'r adolygiad, a phresenoldeb y Rheolwr Cyllid perthnasol yng nghyfarfodydd Panel Adolygu dalgylch y Gader yn y cyfnod rhwng Mai 2010 i Mai 2011, ac mae'r ffigyrau sydd yn yr adroddiad unai yn wir gostau cywir neu yn amcangyfrif teg (lle'n briodol).

Gwelir o'r adroddiad mai cyfyngedig iawn yw'r gallu i wneud cais am arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i adeiladu ysgol newydd ar hyn o bryd, ond byddai lleihau nifer y safleoedd, wrth sefydlu ysgol ardal yn y dwyrain ac ysgol gydol oes yn nhref Dolgellau, yn arwain at arbedion ariannol fel a nodir yn yr adroddiad.

Ni ddylid cyfaddawdu gyda'r cynigion gerbron, er mwyn sicrhau hyfywdra'r drefn arfaethedig. Rwy'n cefnogi'r argymhellion gerbron ac yn annog aelodau perthnasol i barhau gydag adolygu trefniadaeth ysgolion yn ddi-oed."

---

B. Papurau Cefndir


Gwelwch Atodiad 1 ar sut i weld a chael copi o'r dogfennau hyn:

# ATODIAD 2 - Mapiau a Data Ysgolion

## Ysgolion Dwyrain y Dalgylch
## *Schools East of the Catchment*

| YSGOL LLANFACHRETH – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 16 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 65% (30) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 46 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 56% (9) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £8,780 |

| YSGOL IEUAN GWYNEDD – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 18 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 60% (27) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 45 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 44% (8) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £9,577 |




| YSGOL DINAS MAWDDWY – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 22 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 68% (47) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 69 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 5% (1) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £9,188 |

| YSGOL BRITHDIR – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 44 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 0% (0) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 38 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 50% (22) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £4,032 |



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

This map is reproduced from Ordanance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

# Ysgolion Tref Dolgellau

## *Dolgellau Town Schools*

| YSGOL DOLGELLAU – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 150 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 30% (63) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 213 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 7% (10) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £3,750 |




| YSGOL Y GADER – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 380 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 22% (108) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 488 |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £5,067 |

Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

This map is reproduced from Ordanance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008


# Ysgolion Gorllewin y Dalgylch

## *Schools West of the Catchment*

| YSGOL Y CLOGAU – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 32 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 11% (4) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 36 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 75% (24) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £5,551 |

| YSGOL FRIOG – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 31 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 47% (27) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 58 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 6% (2) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £5,413 |

| YSGOL Y GANLLWYD – DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 20 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 57% (27) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 47 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 20% (4) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £8,680 |




| YSGOL LLANELLTYD– DATA 2012/2013 | |
|---|---|
| Disgybl / Pupil | 45 |
| Llefydd Gwag / Surplus Places | 10% (5) |
| Capasiti Ysgol / School Capacity | 50 |
| All-ddalgylch / From Outside Catchment-area | 64% (29) |
| £ y Pen / £ Per Pupil | £4,314 |

Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

This map is reproduced from Ordanance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

# ATODIAD 3 - Opsiynau Buddsoddi Posib

## Symud CA2 i Safle'r Gader

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Esmwytho'r broses drosglwyddo o CA2 i CA3<br>• Galluogi rhannu arbenigedd staff.<br>• Creu adnoddau dysgu newydd ar safle'r Gader<br>• Cryfhau'r sefyllfa addysgol uwchradd | • Yn creu cyfnod trosglwyddo rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA2<br>• Angen buddsoddiad o £4.5miliwn (+ unrhyw waith uwchraddio Cyfnod Sylfaen) i'w wireddu – sydd y tu hwnt i unrhyw amlen ariannol gytunwyd arni eisoes.<br>• Dwyshau'r traffig i'r safle presennol<br>• Byddai angen buddsoddiad sylweddol er mwyn gwella mynediad ac ateb gofynion traffig y safle – swm sylweddol o'r cyllid yn cael ei wario ar wella mynediad yn unig. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Cyfle i wella'r cyrhaeddiad disgyblion yn ystod y cyfnod trosglwyddo rhwng CA2 i CA3<br>• Yn cwrdd â nifer o amcanion y Strategaeth Ad-drefnu megis lleihau llefydd gweigion; cysoni'r gost fesul disgybl; cyfle i gyfuno adnoddau<br>• Cyfle i wella adnoddau dysgu a gofod dysgu fwy hyblyg | • Os mai trefn ar gyfer y disgyblion y dref yn unig ydyw – angen modd o integreiddio disgyblion o ysgolion gweddill y dalgylch i'r ysgol dref. Risg o greu mwy o fwlch rhwng disgyblion Ysgolion Gwledig a disgyblion Ysgol y Dref – e.e. CA2 ysgolion eraill yn ymuno'r safle yn hwyrach.<br>• Os fyddai'r model yn cynnwys holl ddisgyblion CA2 – bydd hyn yn lleihau niferoedd yn ysgolion gweddill y dalgylch. |

## Gwella Cynradd Dolgellau

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Cynllun amlinellol yn rhan o gais Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain<br>• Gwella ac ychwanegu at adnoddau dysgu'r ysgol gynradd<br>• Cyfleon i wella sefyllfa traffig a thrafnidiaeth<br>• Gwella'r ymdeimlad o gyswllt rhwng Cyfnod Sylfaen a CA2 | • Cyfnod trosglwyddo rhwng CA2 a CA3 yn parhau.<br>• Anodd rhagdybio'r niferoedd o ddisgyblion a fyddai'n dod yn ôl i'r dref yn sgîl datblygiadau yno (ar hyn o bryd llawer yn mynd allan o ddalgylch y dref i ysgolion eraill) |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Yn cwrdd â nifer o amcanion y Strategaeth Ad-drefnu megis lleihau llefydd gweigion; cysoni'r gost fesul disgybl; cyfle i gyfuno adnoddau<br>• Posib denu plant y dalgylch sydd yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn ôl<br>• Cyfle i wella adnoddau dysgu a gofod dysgu fwy hyblyg | • Byddai angen cais cynllunio adeilad rhestredig |

ATODIAD 4

# TREFNIADAETH YSGOLION
# Cofnodion

Addysg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod o:** | Addysg Ardal Dolgellau (Dalgylch Y Gader) | **Dyddiad:** | 9 Fai 2013 |

**Presennol:**

Swyddogion
Cyng. Sian Gwenllian, Iwan T Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi R Jones (Pennaeth Adran Addysg), Tony Bate (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion), Dewi Lake (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion), Gwenan Parry (Pennaeth Adran Gofal Cwsmer), Dafydd Gibbard (Rheolwr Eiddo Corfforaethol) Guto Rhys Huws (Cyd-lynnydd Rhaglen),

Aelodau Lleol – Cynghorwyr Peredur Jenkins, Dyfrig Siencyn, Gethin Glyn Williams a John Pugh Roberts; Cynrychiolwyr holl ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylch – Penaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Louise Hughes, Cyng. Linda Morgan

**Cofnod Llawn**

| Rhif Eitem | Eitem / Pwnc | Gweithrediad |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | Cyfeiriwyd at y llythyr anfonwyd gan Benaethiaid y dalgylch yn nodi nifer o gwestiynau ynglŷn â sefyllfa'r ad-drefnu yn yr ardal. Nodwyd y pwyntiau canlynol o'r llythyr a'r bwriad yn ystod y cyfarfod i gyfarch yr agweddau hyn;<br><br>1. Beth yw sefyllfa'r penderfyniad ynglŷn â Dwyrain y dalgylch?<br>2. Beth yw sefyllfa'r datblygiad gydol oes yn nhref Dolgellau?<br>3. Be ydy'r cynllun ar gyfer ardal Orllewinol y dalgylch?<br>4. Yr angen am amserlen weithredol<br>5. Ansicrwydd yn creu problem.<br>6. Gweledigaeth a threfn bendant a thryloyw.<br><br>Amlinellwyd cyd-destun ehangach strategol gan yr Aelod Cabinet Addysg. Sail unrhyw gynlluniau yw bod pob disgybl yn cael eu hannog i'w lawn botensial. Nodir hefyd fod angen datblygu rhwydwaith o ysgolion cadarn a chynaliadwy gan wneud defnydd effeithiol o adnoddau. Mae'n bwysig sicrhau fod yr arian o fewn y system addysg yn cyrraedd y dosbarth ac nid ar gynnal adeiladau hanner gwag. Cyfeiriwyd at y Cynllun Blaenoriaethau - rhaglen waith y Cabinet yn y maes yma. Eglurwyd bod y Groeslon a Llidiardau wedi gorfod cael eu blaenoriaethu oherwydd sefyllfa argyfyngus yno ac mai dyma pam fod oedi wedi bod cyn dod yn ôl i ddalgylch Y Gader.<br><br>Mae oediad wedi bod gyda'r datblygiad yn nhref Dolgellau. Eglurwyd bod mater o gategori neu statws gyfreithiol ar gyfer y sefydliad newydd wedi bod dan drafodaeth. Er mwyn symud pethau yn eu blaen, bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Cabinet cyn Haf 2013. Argymhellir ymgynghori ar gau ac agor ar gyfer y dref ar ddau safle. |
| **2.** | **Diweddariad – Y cynnig i ad-drefnu dalgylch Y Gader** | Atgoffwyd o amserlen y camau a gymerwyd yn rhan Ddwyreiniol o'r ardal.<br><br>Rhoddwyd cyflwyniad ar y broses o ddewis lleoliad gwreiddiol ar gyfer yr Ysgol Ardal.<br><br>Yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i sefydlu'r Ysgol Ardal Aml-Safle ym Mrithdir a Dinas Mawddwy, cyfeiriwyd y mater at Lywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol. Ym mis Tachwedd 2012 cafwyd penderfyniad o blaid y cynnig.<br><br>Yn y cyfamser, gwnaethpwyd gwaith manwl ar safle Ysgol Brithdir a daethpwyd ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | draws problemau a rhwystrau sylweddol o safbwynt materion cynllunio a chostau.<br><br>- Ers cyfnod yr ymgynghori ac wrth ddatblygu'r dyluniadau, daeth yn amlwg y byddai'n anodd iawn derbyn caniatâd cynllunio.<br><br>- Nodwyd byddai'n rhaid gostwng lefel y tir yn sylweddol ar gyfer adeiladu a hynny mewn ardal ble mae craig, a byddai cost sylweddol ynghlwm a hyn.<br><br>- Yn ystod yr un cyfnod daeth yn amlwg fod gofynion technegol y Llywodraeth wedi newid ac y byddai angen mwy o ofod yn yr estyniad.<br><br>- Canlyniad hyn ydyw fod yr hyn a ystyrir bellach yn wahanol i'r hyn a dybiwyd yn ystod yr ymgynghoriad<br><br>- cynnydd yn y gost a risg sylweddol na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi.<br><br>Y pryder ydyw y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei wario er mwyn goresgyn problemau peirianyddol y safle yn hytrach nag ar adnoddau addysg i ddisgyblion yr ardal.<br><br>**<u>Cwestiynau a Sylwadau</u>**<br><br>*Pam fod oedi wedi bod yn y diffyg cyfathrebu?*<br>Eglurwyd fod oedi gan fod y Cyngor wedi bod yn cynnal trafodaethau efo'r Awdurdod Cynllunio a'r Llywodraeth ynglŷn â'r sefyllfa a bod gwaith manwl iawn wedi ei wneud cyn gwneud penderfyniad i adolygu'r sefyllfa.<br><br>*Gofynnwyd felly ai'r sefyllfa cynllunio sydd ar fai am yr oedi?*<br>Eglurwyd fod mater cynllunio yn un o nifer o ffactorau sydd wedi dod i'r amlwg, gyda chynnydd mewn cost yn ffactor amlwg arall.<br><br>*Gofynnwyd am eglurder ar sefyllfa'r arian cyfalaf?*<br>Eglurwyd fod yr amlen ariannol yn parhau ar gael i wneud cais amdano a bod cyfanswm oddeutu £3.6 miliwn ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd drwy Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.<br><br>*Be ydy sefyllfa'r 4 ysgol ynglŷn â'r rhybudd?*<br>Eglurwyd fod y rhybudd yn nwylo'r Gweinidog a bod gohebiaeth ffurfiol i sicrhau eglurder o ran y Llywodraeth o'r sefyllfa. Cytunwyd bod y cynllun gwreiddiol yn argyfyngus a bod yr angen i symud ymlaen yn parhau. |
| **3.** | **Y weledigaeth ar gyfer y dalgylch cyfan** | Amlinellwyd y weledigaeth ar gyfer y dalgylch i symud pethau ymlaen. Yn y cyflwyniad amlinellwyd:<br><br>Gosodwyd cyd-destun:<br>- Cyd-destun polisi cenedlaethol a disgwyliadau o ran llefydd gweigion a defnydd effeithiol o adnoddau.<br>- Sefyllfa ariannol a gwneud defnydd priodol o adnoddau<br><br>- Heriau'r dalgylch<br>Niferoedd yn lleihau<br>Llefydd gweigion<br>Swm y dyraniad ariannol<br>Symudiadau disgyblion ar draws y dalgylch sydd yn creu ansefydlogrwydd<br>Safonau addysg – yn angen i'w cynnal a'u gwella<br><br>- Math o gyfundrefn posib<br>Profiadau teg i blant<br>Cyfle i rannu arbenigedd<br>Dilyniant ar draws yr oedran |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfleon am ddatblygiad proffesiynol<br>Cydlynedd gwasanaethau cyhoeddus<br>Cyfle i wella arweinyddiaeth ar bob lefel<br><br>- Themâu allweddol<br>Datblygu Dolgellau fel canolfan dysg<br>Lleoliadau addysg wledig<br><br>Cyflwynwyd nodweddion model Gydol Oes o fewn y cyd-destun dalgylchol<br>- Cymuned ddysgu gadarn gref ar gyfer dalgylch.<br><br>**<u>Cwestiynau ac Atebion</u>**<br><br>*Cafwyd sylwad nad oes dim yn newydd yma.*<br>- Awyddus i gynnig yr atebion gorau ar gyfer y dalgylch cyfan ac edrych ar y defnydd gorau o unrhyw fuddsoddiad cyfalaf<br><br>*Mynegwyd pryder fod arian am gael ei sugno i'r dref.*<br><br>*Nodwyd dyhead i sicrhau fod elfen buddsoddiad mewn ysgolion gwledig yn ogystal.* |
| **4.** | **Amserlen a chamau nesaf a Rheolaeth Prosiect** | Nodwyd fod angen sicrhau amserlen a chamau clir er mwyn symud y drafodaeth yn y dalgylch yn nes at gael ateb.<br><br>Dangoswyd amlinelliad o amserlen posib sydd yn gosod camau ar gyfer proses ad-drefnu yn y dalgylch. Eglurwyd y bwriad i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2013 er mwyn symud y drafodaeth yn nhref Dolgellau yn ei blaen.<br><br>Yn y cyfamser eglurwyd fod gwaith cefndirol sylweddol i'w wneud i asesu pa opsiynau sydd yn cynnig eu hunain ar gyfer yr ardal wledig. Y gobaith ydy dod yn ôl i drafod y sefyllfaoedd hyn yn fuan yn nhymor yr Hydref.<br><br>*Nodwyd fod angen trafod buan gyda'r Awdurdod Cynllunio ynglŷn ag unrhyw gynlluniau.*<br><br>Eglurwyd fod Côd Statudol drafft ynglŷn ag ymgynghori fydd yn golygu peth newidiadau o ran y broses ymgynghori statudol. Eglurwyd mai'r oblygiadau mwyaf ar hyn o bryd yw y byddai unrhyw ymgynghoriad statudol yn weithredol yn unol â'r Cod newydd<br><br>I geisio crynhoi'r fframwaith amser eglurwyd y gellid symud ymlaen â newidiadau, ar y gorau, o fewn dwy flynedd, ar y gwaethaf mewn tair blynedd.<br><br>Mynegwyd rhai pwyntiau o bryder o'r dalgylch<br><br>• *Pryder am faterion cludiant yn yr ardal*<br>• *Anfodlonrwydd ynglŷn â'r diffyg symud ar gynlluniau gan fod awydd i symud ymlaen a'r ardal wledig yn ei gyfanrwydd.*<br>• *Mae'r ansicrwydd yn cael effaith ar lawr daear – mae symud staff a phlant yn digwydd oherwydd yr ansicrwydd.*<br><br>**<u>Rheolaeth Prosiect</u>**<br><br>Eglurwyd fod y Cyngor am sicrhau trefniadau pendant er mwyn symud y prosiect yn ei flaen yn y dalgylch. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **CLOI** | Er mwyn ceisio crynhoi ymateb o'r cyfarfod cafwyd consensws ynglŷn â'r pwyntiau canlynol:<br><br>1. Ymgeisiwyd i ymateb i'r holl bwyntiau yn y llythyr anfonwyd gan Benaethiaid yr Ardal<br>2. Rhoddir neges glir fod ansicrwydd yn yr ardal<br>3. Cyfeiriwyd at y weledigaeth amlinellol ar gyfer yr ardal<br>4. Eglurwyd fod gwaith i'w wneud er mwyn edrych ar y gyfundrefn a'r safleoedd - y modd o gyflawni<br>5. Nodwyd fod dyhead i sicrhau safleoedd gwledig cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol<br>6. Nodir fod angen sicrhau fod adnoddau yn cael eu cyfeirio at dir ansawdd<br>7. Mae'r model o Ysgol Ddilynol i'w weld yn derbyn cefnogaeth<br>8. Nodir fod angen symud ymlaen â gwaith technegol safleoedd ar unwaith<br>9. Eglurwyd byddai adroddiad ar symud cynllun y wlad yn ei flaen yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn yr Haf 2013<br>10. Rhoddwyd addewid i ddod yn ôl mis Medi 2013 efo gwybodaeth gynhwysfawr am y dalgylch cyfan.<br><br>***** Fel pwynt gweithredu - Penderfynwyd fod angen creu newyddlen yn dilyn y cyfarfod i'w ddosbarthu drwy'r ysgolion. |

# Atodiad 5
# Rhestr Dogfennau'r Pecyn Cefndirol

Bydd y pecyn cefndirol sydd yn cynnwys y ddogfennau rhestrwyd isod, yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol at Aelodau'r Cabinet. Bydd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion neu ar gais gan y Swyddfa Trefniadaeth Ysgolion.

| Trefn | Dogfen |
|---|---|
| **1** | Canllawiau Trefniadaeth Ysgolion gan Llywodraeth Cymru - Cylchlythyr 021/2009 |
| **2** | Cod Trefniadaeth Ysgolion |
| **3** | Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd |
| **4** | Rhaglen Strategol – Tuag at 2025 |
| **5** | Cynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg |
| **6** | Papurau a Chofnodion Trafodaethau'r Dalgylch |
| **7** | Newyddlenni |
| **8** | Adroddiad Asesiad Ardrawiad Ieithyddol |
| **9** | Adroddiad Asesiad Ardrawiad Cymunedol |
| **10** | Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb |